# Llais Ogwan

Papur Bro Dyffryn Ogwen

Rhifyn 564 · **Mai 2025** · 70c



# Rhoi llais i'r llechi

Mae tirlun unigryw Dyffryn Ogwen wedi esgor ar fathau newydd o fugeiliaid. Ers tro byd, mae'r diwydiant twristiaeth wedi gweld ychwanegiad amlwg i'r ymwelwyr mynydda a beicio 'traddodiadol' i'r rhai hynny sy'n chwilio am weithgareddau amgen. Yr enghraifft amlycaf yw cwmni Zip World, sy'n defnyddio rhan o Chwarel y Penrhyn er mwyn cynnal gweithgareddau ac atyniadau i'r rhai hynny sy'n chwilio am ruthr adrenalin. Mae'r cwmni, a agorodd eu safle ym Methesda nôl yn 2013, wedi dod yn olygfa gyfarwydd yn yr ardal, gyda'r lliw coch trawiadol yn saethu unigolion mentrus heibio tomenni gleision cyfarwydd y Fronllwyd. Ond, er fod manteision lleol ynghylch bodolaeth cwmni o'r fath yn yr ardal, megis swyddi a chynnydd mewn ôl-traed ar y Stryd Fawr, mae cais diweddaraf y cwmni wedi codi cwestiynau ynghylch sut yn union mae trigolion y Dyffryn yn elwa o'i fodolaeth.

Ymddengys fod cwmni Zip World wedi gwneud cais am nawdd gwerth £6.2 miliwn o o arian cyhoeddus gan Fwrdd Uchelgais Cymru, cais sy'n cael ei ystyried fel cam arall ymlaen i'r cwmni ac i'r Dyffryn. Ond y mae eraill yn bryderus ynghylch hyn. Os bydd y cais hwn yn llwyddiannus, mae grŵp o unigolion yn lleol yn annog y cwmni i ymrwymo cyfran fach o'u helw -1% o drosiant y safle neu 5% o'u helw gweithredol yn ardaloedd Llechwedd a Phenrhyn – i gronfa waddol gymunedol. Gallai hyn godi £50,000 y flwyddyn ar gyfer prosiectau lleol gan wneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau trigolion Dyffryn Ogwen. Un sydd wedi bod yn flaenllaw yn yr ymgyrch yw'r Cynghorydd Beca Roberts. Meddai,

'Ar adeg pan mae cymunedau yn Nyffryn Ogwen a Ffestiniog yn colli

**Parhad t3**



Beca Roberts

Ymwelodd cynghorwyr, cyllidwyr a chynrychiolwyr Safle Treftadaeth y Byd â safle'r Hen Bost.



**Chwith-dde: Yr Arglwydd Dafydd Wigley, Cadeirydd Bwrdd Partneriaeth Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd-orllewin Cymru, Cynghorydd Nia Jeffreys, Arweinydd Cyngor Gwynedd, Phil Williams, Rheolwr Safle Grosvenor, Robyn Meredydd, Swyddog Cefnogi Prosiect Hen Bost, Cynghorydd Einir Wyn Williams, Ward Gerlan Dyfrig Jones, Cadeirydd Partneriaeth Ogwen, Cynghorydd Medwyn Hughes, Aelod Cabinet Economi a Chymuned Cyngor Gwynedd, Katie Goodwin, Llywodraeth DU, Cynghorydd Paul Rowlinson, Ward Rachub**



# Llais Ogwan

**Rhif 564**
**Mai 2025**

**Panel Golygyddol**
Ieuan Wyn
Lowri Roberts
Neville Hughes
Dewi A Morgan
Trystan Pritchard
Rhodri Llŷr Evans
Owain Evans
Carwyn Meredydd
Rhys Llwyd
Catrin Wager
Fflur Roberts

**Swyddogion**
**CADEIRYDD**
Dewi A Morgan, Park Villa,
Lôn Newydd Coetmor,
Bethesda, Gwynedd
LL57 3DT (Ffôn 602440)
dewimorgan@live.co.uk

**Trefnydd hysbysebion**
Neville Hughes, 14 Pant,
Bethesda LL57 3PA (Ffôn 600853)
nev_hughes@btinternet.com

**Ysgrifennydd**
Gareth Llwyd, Talgarnedd,
3 Sgwâr Buddug, Bethesda
LL57 3AH (Ffôn 601415)
garethllwyd197@btinternet.com

**Trysorydd**
Paul Rowlinson, Crud yr Awel,
Lôn Newydd, Coetmor,
Bethesda LL57 3DT
(Ffôn 01248 605365 /
07949 034967)
PaulJRowlinson@outlook.com

## Golygydd y Mis

Golygwyd rhifyn y mis hwn gan **Lowri Roberts.**

Y golygydd ym mis **Mehefin** fydd **Rhys Llwyd,** Tonteg, 13 Talycae, Tregarth, Bangor, Gwynedd, LL57 4AE
01248 601606 Ebost: rmll42@live.co.uk

Pob deunydd i law erbyn **dydd Sadwrn, 31 Mai** os gwelwch yn dda.

Casglu a dosbarthu **Nos Iau, 19 Mehefin** yn llawr uchaf Canolfan Cefnfaes am 6.45.

**DALIER SYLW:** NID OES GWARANT Y BYDD UNRHYW DDEUNYDD FYDD YN CYRRAEDD AR ÔL Y DYDDIAD CAU YN CAEL EI GYNNWYS.




## Golygyddol

**Gwaeledd**

Fel y nodir yn newyddion Bethesda a Thalybont, mae Neville Hughes, Ffordd Pant, wedi'i daro'n wael a'i gymryd i'r ysbyty. I'r rhai hynny yn ein plith sy'n golygu neu'n cyfrannu at y Llais mewn unrhyw ffordd, byddwn yn ymwybodol mai Neville yw asgwrn cefn y papur hwn. Rydym wedi ceisio llunio rhifyn Mai, gan gynnwys popeth sy'n bosibl i ni, ond rydym yn ymwybodol y gallem fod wedi methu rhai eitemau fyddai'n dod yn arferol trwy law Neville. Fel golygydd, ymddiheuraf am hyn, a gallaf eich sicrhau y bydd unrhyw eitem 'goll' yn cael ei throsglwyddo i'r rhifyn nesaf. Fodd bynnag, rwy'n siŵr y cytunwch mai'r peth pwysicaf yw dymuno adferiad llwyr i Neville, wrth i ni i gyd sylweddoli gwir faint ei gyfraniad misol i'n papur bro ni yma yn Nyffryn Ogwen.

## Archebu trwy'r post

**Gwledydd Prydain**
Yn anffodus, oherwydd cynnydd aruthrol yng nghostau postio, 'rydym wedi cael ein gorfodi i godi ein pris i £35 y flwyddyn.

**Owen G Jones**, 1 Erw Las,
Bethesda, Gwynedd
LL57 3NN (Ffôn 600184)
post@llaisogwan.com

## Dyddiadur y Dyffryn

**Mai**

16 Cyngerdd Elusennol, Cadeirlan, Bangor 19:00–21:30
Cyngerdd elusennol er budd Ymchwil Cancr Gogledd Orllewin yn Cadeirlan Bangor ar 16 Mai 2025, i gychwyn am 7.00pm.

17 Carnifal Bethesda. Gorymdaith am1.10yp o'r Clwb Peldroed i'r Clwb Rygbi.

27 Gyrfa Chwist. Cefnfaes am 6.45.

**Mehefin**

6 Gig 9Bachm Neuadd Ogwen, Bethesda
19:30–23:00. Bydd Tennger a Bethesda Shipping Company yn cefnogi 9Bach ar Fehefin y 6fed.

## Clwb Cyfeillion

**Gwobrau Mai**

| | | |
|---|---|---|
| £30.00 | (15) | Luned Edwards, Braichmelyn. |
| £20.00 | (48) | Cemlyn Jones, Erw Las, Bethesda. |
| £10.00 | (127) | Gaynor Elis-Williams, Carneddi. |
| £5.00 | (66) | Siân Beidas, Tregarth. |

## Rhoddion i'r Llais

| | |
|---|---|
| £5.00 | Eirlys Edwards, Llandygai. |
| £2.30 | Joe a Menai, Ffordd Bangor. |
| £12.30 | Andrew Smith, Ffordd Bangor. |
| £2.30 | Dr.Mithan, Ffordd Bangor. |

***Diolch yn fawr.***

# Llais Ogwan

***Newyddion Mehefin i'w dderbyn erbyn 31 Mai.***
***Dyddiad cyhoeddi 19 Mehefin.***

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

***Cysylltwch â ni: golygydd@llaisogwan.com***

**Parhad o t1**

gwasanaethau hanfodol, mae'n peri pryder gweld Zip World—sy'n awr yn eiddo i gwmni ecwiti preifat gwerth £100 miliwn—yn gofyn am £6.2 miliwn o arian cyhoeddus i ehangu ei ymerodraeth dwristiaeth. Mae'r atyniadau hyn yn defnyddio ein tirwedd, yn gweithredu yn ein trefi, ac yn elwa ar ein seilwaith—ond mae'r manteision i'n cymunedau'n parhau'n aneglur.'

Aiff ymlaen i nodi , 'Os yw arian cyhoeddus ar gael, rhaid gosod amodau ystyrlon: tryloywder llawn am ansawdd swyddi, ymgynghoriad gwirioneddol gyda'r cymunedau dan sylw, a chyfraniad teg yn ôl—efallai trwy gronfa gymunedol barhaol, wedi'i chlymu i incwm neu elw.' Dyna pam bod mudiadau ar draws y Dyffryn yn galw am gronfa gymunedol barhaol—cronfa lle byddai 1% o'u trosiant yn cael ei fuddsoddi'n uniongyrchol yma.'

Gyda chryn frwdfrydedd ynghylch y syniad yn ei hanfod, mae'r grŵp yn galw am fuddsoddiad go iawn fydd yn aros yn y cymunedau hynny sy'n cynnal Zip World—nid yn diflannu dros y ffin.

Rydym eisoes wedi gweld effaith buddsoddiadau sylweddol er lles y gymuned. Yn ddiweddar, gwelwyd effaith cynllun Llewyrch o'r Llechi a arweiniodd at fuddsoddiad o dros £3miliwn i ddatblygu Neuadd Ogwen a'r Hen Swyddfa Bost, Bydd y prosiectau yma yn cyfrannu at fynediad a mwynhâd o ddiwylliant a threftadaeth o fewn y Safle Treftadaeth y Byd.

**Neuadd Ogwen**

Mae'r gwelliannau o osod gwrthsain hanfodol, a systemau golau a sain o'r radd flaenaf yn golygu bod y ganolfan nawr yn medru cynnig profiad gwell i fynychwyr a lleihau effaith sŵn ar y gymuned leol. Ers i'r gwelliannau gael eu cwblhau mae tri aelod newydd o staff wedi eu cyflogi gan y Neuadd, gan sicrhau dyfodol cyffrous a llewyrchus i'r lleoliad. Dywedodd Dilwyn Llwyd, Rheolwr Neuadd Ogwen:

"Mae'r buddsoddiad a'r gwelliannau rydym wedi'u gwneud yn gwneud i Neuadd Ogwen deimlo fel canolfan gelfyddydol a lleoliad cerddoriaeth go iawn, ac mae'r dyfodol yn edrych yn llewyrchus."

Ychwanegodd Lisa Jên Brown, actores a pherfformiwr gyda'r band Cymreig 9Bach:

"Dwi wedi gweld Neuadd Ogwen yn datblygu dros y blynyddoedd - o'r adeg pan ddechreues i allan a chwarae yn y cyntedd, i chwarae o flaen cannoedd o bobl.

**Yr Hen Bost**

Partneriaeth Ogwen sy'n arwain ar y gwaith o drawsnewid hen adeilad Spar ar Stryd Fawr Bethesda er mwyn cynnig darpariaeth i drigolion lleol yn ogystal ag ymwelwyr. Bydd



y datblygiad yn cynnig gofod fydd yn galluogi i ymwelwyr dreulio amser a gwario eu harian ar Stryd Fawr Bethesda, ac yn gyfle i werthfawrogi hanes a threftadaeth yr ardal.

Felly, gyda buddsoddiadau yn gallu dwyn ffrwyth ac yn gyfrwng i gyfoethodi ein trafntadaeth, gobeithio y bydd cwmni Zip World, os yn llwyddiannus, yn trosglwyddo cyfran fechan o'u cyllid er mwyn sicrhau fod yr ardal hon yn mynd o nerth i nerth.

(Cysylltwyd â chwmni Zip World am ymateb. Cydnabyddir yn ddiolchgar gyfraniad Cyngor Gwynedd a'r Cynghorydd Beca Roberts at yr erthygl hon. Gol.))

## Pentir

**Cynrig a Carys Hughes,** Rallt Uchaf, Pentir, LL57 4YB (01248 601318) carys16@hotmail.com

### Eglwys St. Cedol, Pentir

**Sêl Blanhigion**

Bydd Sêl Blanhigion yn cael ei chynnal yn yr Eglwys ar ddydd Sadwrn y 24 Mai o 2yh-4yh; dewch draw am fargen a sgwrs dros baned.

**Clwb Crefftau**

Bydd Clwb Crefftau Eglwys St. Cedol - sef Dwylo Dawnus - yn cyfarfod yn wythnosol ar brynhawn Gwener am 2yp yn yr Eglwys. Dewch â'ch crefft neu dewch i ddysgu crefft newydd dros baned a sgwrs.

**Te Bach**

Mae eglwys St.Cedol yn cynnal Te Bach ar brynhawn Mercher cyntaf y mis am 2 o'r cloch. Bydd y Te Bach nesaf a'r 4ydd o Fehefin. Mae croeso cynnes i chwi ymuno â ni am brynhawn hwyliog gyda phaned, teisen a sgwrs.

**Sgwrs**

Daeth y ddiweddar Gareth Roberts o Fenter Fachwen in plith ar y 10 o Ebrill i roi sgwrs ar hanes dalgylch Pentir a chysylltiad yr Eglwys â'r ardal. Roedd yn noson ddiddorol a hwyliog iawn. Braf oedd gweld cynifer wedi dod ynghyd i fwynhau'r sgwrs.

Braw oedd clywed wythnos yn ddiweddarach am farwolaeth sydyn Gareth; bydd hyn yn golled enfawr i'r dalgylch. Estynnwn ein cydymdeimlad at ei wraig a'i fab a'r teulu cyfan yn eu profedigaeth.

**Raffl Misol**

Rydym yn cynnal raffl o hamper yn fisol ar themâu gwahanol er mwyn codi arian i gynnal yr Eglwys. Enillydd mis Ebrill oedd Sharon (yn rhoddedig gan Eirwen a Nia) ac enillydd yr ail wobr oedd Alison (yn rhoddedig gan Janet).

Hoffwn ddiolch i'r aelodau, ein teuluoedd a'n teuluoedd estynedig am fod mor barod i brynu'r tocynnau raffl, hefyd i'r aelodau a ffrindiau sydd wedi bod mor hael yn cyfrannu'r hamperi. Diolch o galon i chi gyd.

**Manylion cyswllt**

Os am drefnu priodas neu fedydd neu unrhyw fater arall i ymwneud â'r eglwys cysylltwch â'r Y Parch. Ddr Gareth Lloyd, Arweinydd Ardal Gweinidogaethol Bro Ogwen: gareth.lloyd@cantab.net neu 01248 361521. Cofiwch fod Nia (warden) 07719 918686 yna i chi os am unrhyw wybodaeth neu sgwrs.

**Elwyn Jones & Co**

hefyd yn masnachu fel
Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd LLP

**- Cyfreithwyr -**

123 Stryd Fawr Bangor Gwynedd
(01248) 370224

*Ar gyfer eich holl anghenion cyfreithiol*
*Gwasanaeth dwyieithog personol a chyfeillgar*

*Swyddfeydd eraill:*

Llangefni (01248) 723106 | Porthaethwy (01248) 719517 | Benllech (01248) 852782
Caernarfon (01248) 673616 | Pwllheli (01758) 703000

1969
**M.HUGHES A'I FAB**

**CONTRACTWYR TOI**
Bryn Myfyr, Allt Pen y Bryn,
Bethesda ☎ 600633
☎ (symudol) 07702 583765
mhughesandson@hotmail.com

Arbenigo mewn gwaith ffelt a pitsio. Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant. Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am waith diguro.

# Llandygái

**Iona Wyn Jones,** 16 Pentref, Llandygái, Bangor LL57 4HU  (01248 354280)
ionawynbangor@gmail.com

**Pen-blwydd Arbennig**
Dathlodd Mrs Muriel Owen o'r pentref ei phen-blwydd yn 90 oed ar y 17 o Ebrill. Cafodd amser da gyda'r teulu. Hoffai ddiolch yn fawr iawn i'r teulu, ffrindiau, a'r cymdogion am yr holl gardiau, a blodau bendigedig a dderbyniodd.

## Eglwys Sant Tegai, Llandygai

**Croeso'n ôl**
Croeso'n ôl i'r Parch Ddr Gareth Lloyd, wedi cyfnod o salwch hir dymor, a dymunwn adferiad buan iddo wrth iddo ddychwelyd yn raddol i'w waith. Mae'r manylion cyswllt ar waelod yr adroddiad.

**Pasg St Tegai**
Y Parch Ganon Alex Mayes oedd yn arwain yr addoliad Pasg yn yr eglwys a daeth â'i hwyl a llawenydd arferol wrth ddathlu'r Atgyfodiad. Addurnwyd yr eglwys yn lliwiau'r tymor o wyrdd, gwyn a melyn gan wirfoddolwyr ffyddlon a diolchwn iddynt am eu gwaith. 'Roedd y plant, pobl ifanc a'r oedolion yn hapus iawn i dderbyn wyau Pasg gan yr eglwys ar ddiwedd y gwasanaeth!

Dathlwyd Ail Sul y Pasg ym Mro Ogwen gyda'r Parch Ddr Gareth Lloyd mewn gwasanaeth unedig yn St Tegai ar Ebrill 27ain. Cafwyd cyfle arbennig i'r chwe eglwys gyd-addoli a chael paned ar ôl y gwasanaeth yn Neuadd Talgai.

Diolchwn i bawb yn y gynulleidfa ac o'r gymuned sydd wedi rhoi rhodd Pasg i'r eglwys eleni.

**Eglwys Agored**
Mae tymor Eglwys Agored wedi cychwyn ers Y Pasg ac estynnwn groeso i bawb i ymweld â'r adeilad er mwyn darganfod hanes yr eglwys a'r fynwent, gweld cofeb Archesgob John Williams (John Iorc) ac i fyfyrio'n dawel mewn awyrgylch ysbrydol a hanesyddol. Mae'r eglwys ar agor bob dydd o ganol y bore hyd yn hwyr y prynhawn.

**Newyddion am y fynwent**
Ers blynyddoedd bellach mae Eglwys St Tegai wedi gwarchod erw Duw drwy ymatal rhag torri'r gwair ar ddechrau'r Gwanwyn i helpu i fywyd gwyllt ffynnu . Mae'r traddodiad yma yn gweddu'n ddelfrydol i'r ymgyrch "Mai Di-dor" sydd wedi ei sefydlu dros y wlad er lles natur a phobl.  Ynghyd â mannau cyhoeddus gwyrdd eraill mae ein garddwr, Siôn Aelwyn Roberts yn dal yn ôl tan ddiwedd Mai rhag torri'r gwair, i roi cyfle i'r blodau gwyllt.

**Pen-blwyddi arbennig**
Dymunwn ben-blwydd hapus i Muriel Owen ac Edmond Douglas Pennant, y ddau wedi dathlu pen-blwyddi arbennig iawn yn ystod yr wythnosau diwethaf. Gwerthfawrogwn gefnogaeth Muriel yn arw er nad yw'n aelod yn y gynulleidfa. Mae Edmond yn Warden y Bobl a Thrysorydd St Tegai ers blynyddoedd bellach a diolchwn am ei wasanaeth a'i deyrngarwch.  Rhaid peidio anghofio eraill sydd wedi dathlu pen-blwydd ym mis Ebrill er nad yn ben-blwyddi arbennig, sef Pauline Edwards, Hazel Jones ac Avril Williams. Pen-blwydd hapus i hwythau!

**Rhodd nawddsant Tegai Mehefin 2025**
Bydd diwrnod ein nawddsant St Tegai yn cael ei ddathlu ar Fehefin 5ed eto eleni.  Bydd y Suliau canlynol yn gyfle i aelodau'r eglwys ac i ffrindiau sydd gyda chysylltiadau personol â phentref Llandygai, gynnig rhodd ariannol i ddathlu bywyd a gwaith y sant ar ddydd ei ŵyl.  Derbynir yn ddiolchgar unrhyw roddion drwy siec yn daladwy i Eglwys Llandegai Church, neu arian parod mewn amlenni trwy'r blwch postio i'r swyddogion; Ann E. Williams (Warden y Ficer), Llwyn Coed, 9 Llwyn Bleddyn, Llanllechid, Bangor, Gwynedd. LL57 3EF (Ffôn 01248 600719); Nerys Jones (Ysgrifennydd yr Eglwys a Sacristan), 2 Bryn, Llandygai, Bangor, Gwynedd. LL57 4LD (Ffôn 01248 354369) neu Edmond Douglas Pennant (Trysorydd a Warden y Bobl), Lodge Drws Melyn, Pentre Llandygai, Bangor, Gwynedd LL57 4HU. Os gwelwch yn dda a wnewch chi ysgrifennu enw llawn, cyfeiriad ac ebost ar eich rhodd: mae'n bosib hawlio Rhodd Cymorth am gyfraniadau cymwys. Wrth gwrs mae'n bosibl talu drwy drosglwyddiad banc (Cyfrif yr Eglwys: 30-90-43  00098435).

Diolch i bawb o'r ardal sydd wedi dangos diddordeb neu wedi cyfrannu eisoes i'n hachos.  Bydd y rhoddion er budd y Gronfa Atgyweirio, yn benodol at atgyweirio'r clochdy.

**Gwasanaethau**
*Ar y Sul*
Mae gwasanaethau St Tegai am 11.00 ar yr ail a'r pedwerydd Sul yn y mis.
Gweler rota eglwysi Bro Ogwen ym mhorth pob eglwys.

*Ar Ddydd Mercher*
Gwasanaeth 10.30, paned a sgwrs i ddilyn, ar yr ail a'r pedwerydd Mercher yn y mis. Os na ddymunwch fynychu'r gwasanaeth, mae croeso i chi ymuno â ni am y baned a sgwrs sy'n dilyn.

**Manylion Cyswllt**
Y Parch Ddr Gareth Lloyd yw ein Arweinydd Bro a Ficer Bro Ogwen. Ei fanylion cyswllt yw: 01248361521 neu **GarethLloyd@cinw.org.uk** ynglŷn ag unrhyw fater yn ymwneud â'r eglwys. Wrth gwrs gallwch hefyd gysylltu yn lleol â'n Caplan Bro, Y Parch Sara Roberts, **SaraRoberts@churchinwales.org.uk**.

STEPHEN JONES
TREFNWR ANGLADDAU CYF
PEN Y BRYN BETHESDA
GWASANAETH PERSONOL
PEDAIR AWR AR HUGAIN
CAPEL GORFFWYS
BETHESDA • 01248 600455 • 07770265976
Ebost: stephenjonesfuneraldirectors@outlook.com

TÎM PLAID CYMRU DYFFRYN OGWEN
cynghorydd.Dafydd Meurig@gwynedd.llyw.cymru
cynghorydd.EinirWyn Williams@gwynedd.llyw.cymru
cynghorydd.Rheinallt Puw@gwynedd.llyw.cymru
cynghorydd.Beca Roberts@gwynedd.llyw.cymru
cynghorydd.Paul Rowlinson@gwynedd.llyw.cymru

07765 400140 Arllechwedd
07747 690456 Gerlan
07789 742092 Canol Bethesda
07436 927237 Tregarth & Mynydd Llandygai
07949 034967 Rachub

# YSGOL LLANDYGAI

**Dosbarth Enfys a Dosbarth Gwawr**
Ddechrau'r mis, mwynhaodd y plant edrych ar wahanol ffonau symudol a ffonau tŷ yr oedd rhai teuluoedd wedi eu hafnon i mewn. Roedden nhw yn wahanol iawn i'r ffonau clyfar heddiw a dim camera ar rai ohonyn nhw. Bu'r staff hefyd yn hel atgofion am eu ffôn symudol cyntaf nhw a beth oedd y ffôn hwnnw yn ei wneud neu ddim yn ei wneud! I ddiweddu'r tymor, bu'r plant yn dysgu ffeithiau am rai deinasoriaid. Wyddoch chi bod un deinosor - Pantydraco oedd ei enw – yn byw yng Nghymru? Gwnaethant ddarganfod beth oedd rhai deinosoriaid yn ei fwyta, ar sawl coes yr oeddynt yn cerdded a hefyd pa mor fawr oedden nhw. Roedd rhai ohonyn nhw yn hirach na'r ysgol tra bod rhai eraill yn fyrrach na'r athrawon! I ddiweddu'r tymor, cafwyd 'Diwrnod Deinosoriaid' gyda phawb yn rhannu gwybodaeth am 1 deinosor.



**Dosbarth Awel**
Mae'r dosbarth wedi bod yn gwneud yn fawr o'r tywydd braf dros yr wythnosau diwethaf ac wedi bod yn crwydro o amgylch y pentref. Buont yn mynd ar daith o amgylch lonydd cul y pentref gan sylwi ar y tai a nodweddion y pentref wrth baratoi ar gyfer creu map cyfredol o'r pentref. Buont hefyd ar ymweliadau ag Eglwys Sant Tygai edrych ar y ffenstri lliw arbennig cyn mynd ati i lunio cynllun o ffenestr lliw eu hunain. Mae'r dosbarth hefyd wedi bod yn mwynhau sesiynau gyda DJ Endaf gan fwynhau dysgu am dechnoleg cerddoriaeth. Diolch Wasanaeth Cerdd Ysgolion Gwynedd a Môn am y cyfle yma.





**Dosbarth Tirion**
Tro Blwyddyn 5 oedd cael sesiynnau Ysgol Goedwig yr hanner tymor yma. Buont yn ffodus o dywydd sych dros y cyfnod a phawb wedi mwynhau y cyfle i fod allan yn dysgu sgiliau newydd a phwysigrwydd gweithio fel tîm yn yr awyr iach. Mwynhaodd y dosbarth fore hwyliog yng nghwmni yr awdures Rebecca Wilson yn mewn gweithdy creadigol. Roeddent yn hynod o lwcus i dderbyn copi yr un o'i llyfr hyfryd 'Gŵyl y Gaeaf'. Cyn y Pasg, treuliodd disgyblion y dosbarth fore yn y Clwb Rygbi mewn sesiwn blasu rygbi gydag ysgolion eraill y dalgylch.








# Côr y Penrhyn

## gyda Derfel Roberts



**Priodas**

Llongyfarchiadau calonnog i Elfyn Bullock ar ei briodas gyda Sharon Thomas ar Sadwrn y Pasg. Mwynhawyd gwledd ddathlu hyfryd yng Ngwesty'r Celt yng Nghaernarfon a bu nifer o aelodau'r côr ynghyd â'r arweinydd, Owain Arwel, yn ogystal â'r priodfab ei hun, yn canu yn y briodas. Mae'r priodfab yn aelod o'r ail fas ers cryn amser ac yn unawdydd achlysurol mewn cyngherddau. Bu teulu Elfyn ar ochr ei dad, yn gantorion medrus yng Nghôr y Penrhyn am flynyddoedd a bu Elfed Bullock, ei dad, yn canu yn y bas cyntaf cyn ymddeol o'r côr.

Mae pob aelod o Gôr y Penrhyn yn dymuno'n dda i Elfyn a Sharon yn eu bywyd priodasol.

**Taid**

Er mai gŵr ifanc o ran golwg ac o ran ysbryd yw'r baswr Wyn Williams mae'n bleser cael cyhoeddi bod Wyn bellach yn daid a hynny am y tro cyntaf. Llongyfarchiadau iddo fo ac i'r teulu. Mae'n sicr y bydd Wyn yn cael ei gadw'n brysur rŵan rhwng y babi newydd, ei waith, a'i aelodaeth o'r côr. Un o Sir Fynwy ydy Wyn yn wreiddiol ond erbyn hyn mae wedi gwreiddio yng Ngwynedd ac yn gweithio i'r cwmni teledu sy'n cynhyrchu Rownd a Rownd ymhlith prosiectau eraill.

**Hanes ac Archif y côr**

Mae'r pwyllgor wedi gofyn i Gwilym Owen T2 i ddiweddaru hanes y côr. Bydd y gwaith a wneir gan Gwilym yn ddilyniant i lyfr y diweddar Elfed Jones, Glanogwen a gyhoeddodd lyfryn o'r enw Côr y Penrhyn Ddoe a Heddiw yn 1984.

Mae Gwilym a'r pwyllgor yn apelio at unrhyw un, sydd neu a fu â chysylltiad â'r côr am wybodaeth a hanesion o gyfnod y 50au a'r 60au. Mae agendor yn hanes y côr yn y cyfnod hwnnw. Byddai unrhyw eitem e.e. toriad o bapur newydd, llun, hanesyn, rhaglen gyngerdd neu unrhyw wybodaeth arall yn derbyn diolch cywiraf y tîm ac yn cael ei gydnabod yn y gyfrol pan gyhoeddir hi.

Mae'r côr wedi llogi ystafell yng Nghapel Jerwsalem i ddod â'r holl gasgliad o ddogfennau a lluniau hanesyddol côr at ei gilydd. Mae cryn waith dethol, didoli a chwynnu wedi digwydd eisoes ac mae'r aelodau fu wrthi o dan oruchwyliaeth Gwilym ac Emyr Fôn Evans am barhau i ddygnu arni gan fod toreth o ddeunydd angen cael trefn arno.

Un o'r aelodau fu wrthi ydy Aled Williams B1 a drefnodd i'r côr gael cabinet ffeilio i hwyluso'r gwaith o gadw eitemau fel copïau a CD's ac ati.

Mae Mrs Vera Morgan a'i merch Nerys, teulu'r diweddar Tom Morgan, wedi rhoi nifer o eitemau tebyg i'r rhai a enwyd uchod i'r côr. Un arall yw Gwilym Owen, Bethesda, B2, llywydd y côr ac aelod oes sy wedi cyfrannu llawer yn ogystal â Rheolwr y côr, Alun Davies a ddaeth â LP o'r 60au wedi ei llofnodi gan bob aelod o Gôr y Penrhyn o'r cyfnod hwnnw.

**Ymwelwyr o Ganada**

Roedd dau ymwelydd o Ganada yn un o'r ymarferion yn ddiweddar ac ar ôl gwrando ar y côr yn ymarfer mae'r ddau'n edrych ymlaen yn eiddgar at fynd i wrando eto pan fydd y côr yn perfformio yng Ngŵyl Cymry Gogledd America a Chanada.

Mae'r ŵyl eleni yn Ottawa, y brifddinas ac mae llawer o adeiladau llywodraethol a sefydliadol Canada yn atgoffa pobl o Lundain, gyda dylanwad yr adfywiad Gothig ar nifer o adeiladau pwysig ar lan yr afon Ottawa. Fodd bynnag , cyn canu yn Ottawa mae'r côr yn rhoi perfformiad yn Toronto ac yn Niagara Falls a bydd golygfeydd ysblennydd y rhaeadr yn sicr o roi ysbrydoliaeth i'r cantorion.

Rheinallt ar y Radio

A wyddech chi fod Rheinallt Davies, T1 yn cyflwyno rhaglen reolaidd ar Môn FM? Ar y rhaglen mae'n chwarae cerddoriaeth a chynnal sgyrsiau ysgafn efo hwn a'r llall ac mae'n gwneud hynny bob nos Sadwrn rhwng 10 a 12 yr hwyr. Dywedodd Rheinallt, sy'n aelod o T1 ac yn swyddog gweinyddol yng Ngholeg Glynllifon fod "radio lleol yn gymorth i gadw'r Gymraeg yn fyw". Er bod y gerddoriaeth mae'n chwarae ar ei raglen yn ddwyieithog mae'r dewis o ganeuon yn helaeth ac yn apelio at bobl o bob oed a chwaeth..

Enghraifft arall ydy Rheinallt o'r amrywiaeth talent a gyrfaoedd sy yn y côr.

**Cyngerdd tri Chôr yn y Gadeirlan ar Fai 16**

Gan fod y cyngerdd uchod yn cael ei gynnal yn union wedi i Lais Ogwan ymddangos mae'n bur debyg na wêl llawer ohonoch mo'r hysbys hwn nes bydd y cyngerdd wedi bod. Er hynny, bu cyfeiriad byr ato yn y rhifyn diwethaf.

Cyngerdd gyda Lleisiau'r Mignedd o Ddyffryn Nantlle a Cônarfon o Gaernarfon ydy hwn ac mae cyngherddau at achosion

## Cystadleuaeth Golff yn Llanfairfechan



Ar ddydd Sadwrn 26 Ebrill cynhaliodd y côr ddiwrnod o gystadleuaeth golf ar gwrs naw twll Llanfairfechan fel rhan o ymgyrch aelodau'r côr i godi arian i dalu am ymweliad ag Ottawa yn niwedd Awst a dechrau Medi. Fel y gŵyr llawer mae'r côr wedi derbyn gwahoddiad gan drefnwyr Cymanfa Cymry Gogledd America i berfformio mewn cyngerdd mawreddog yn yr ŵyl ac i gryfhau'r canu cynulleidfaol yn y gymanfa ganu draddodiadol.

Gareth Williams, cadeirydd Côr y Penrhyn drefnodd y diwrnod golff efo cymorth aelodau eraill o Lanfairfechan. Cafwyd cyngerdd anffurfiol yng nghwmni hogia'r côr yn ystod min nos y gystadleuaeth golf pan berfformiodd y côr ar y glaswellt y tu allan i'r clwb ar noson wanwynol braf a chynnes.



Gwyn Owen

**Swydd Newydd**

Fel côr sydd wedi rhoi cyfleoedd i sawl cerddor ifanc addawol i berfformio ar lwyfannau gyda ni, mae aelodau Côr y Penrhyn yn ymhyfrydu bod Gwyn Owen o Dregarth, mab Gwilym Owen, T2, wedi cael ei benodi i swydd barhaol gyda Cherddorfa Ffilharmonig y BBC ym Manceinion. Bydd Gwyn yn gweithio fel Prif Drwmped cynorthwyol yn y gerddorfa a bydd yn symud o Lundain i fyw ym Manceinion yn fuan. Pob dymuniad iddo oherwydd bu'n perfformio mewn cyngherddau gyda ni ers ei ddyddiau ysgol fel un o ddisgyblion Owain Arwel yn Ysgol Tryfan.

da fel Wcráin, Hosbis Llandudno ac amryfal achosion arail wedi bod yn llwyddiant anhygoel.  Y tro hwn yr ymgyrch i godi arian at *Ymchwil i Ganser, Gog. Cymru* fydd yn elwa.

**Cyfle i dalu gwrogaeth**

Meddai Mark “I mi roedd y perfformiad “Ponc Pontio” yn gyfle i dalu gwrogaeth i’r chwarelwyr a’r gweithwyr niferus a helpodd i greu Prifysgol Bangor.  Dewisais gropian i fyny’r allt gyda llechi ar fy nghefn mewn ymgais farddonol i ymgorffori’r hyn rwy’n ei ddychmygu oedd yn waith caled iawn yn y chwarel. Rhywbeth nad yw’r rhan fwyaf o’n cenhedlaeth ni yn ei wybod mwyach.”

Ychwanegodd, “Hefyd, roedd gen i ddiddordeb yn yr hyn a olygai i chwarelwyr allu mynd i’r brifysgol, i astudio.”  Meddai wedyn, “O safbwynt bywoliaeth a wnaed allan o waith llaw roedd y cyfan yn gwbl gyfarwydd i mi oherwydd roedd fy nhad fy hun yn saer maen ac yn gosod brics a blociau, ynghyd â nifer o fy hynafiaid rai ohonynt yn weithwyr chwarel garreg.”

Meddai ymhellach, “Cysylltais gydag Alun Davies i gael llechi, a chynigiodd Alun ysgythru’r llechi gydag enwau’r ponciau a symbolau eraill ac roedd hyn yn rhoi mwy o negeseuon cysylltiedig i mi yn y chwareli eraill.”

**Haelioni pobl yr ardal**

Wrth gloi roedd Mark yn awyddus i ddiolch i bobl am y cymorth a gafodd i wneud y prosiect. “Roedd ‘Ponc Pontio’ hefyd yn gyfle i roi rhywbeth yn ôl i’r gymuned a’r rhanbarth lleol am yr holl haelioni rydw i wedi’i brofi wrth weithio ac ymchwilio yma.  Cefais gyfle i gydnabod fy nghyndeidiau Cymreig fy hun, rai ohonynt oedd yn byw yn yr ardal hon gannoedd o flynyddoedd yn ôl, ymhell cyn i ni symud i Aotearoa / Seland Newydd.”

“Roedd pobl leol eraill fel Mared Huws ac yn arbennig Eifiona Thomas Laine yn fy arwain yn y broses hon.  Hoffwn ddiolch i’r bobl o Wynedd rydw i wedi ymgysylltu â hwy, a hefyd y nifer sydd wedi fy helpu yn y broses hon, gan gynnwys teulu Eifiona, Sara MacBride-Stewart a staff Pontio.

Diolch arbennig i Alun Davies am ei gefnogaeth a’i arweiniad yn y broses hon ac am ymuno â chân tra ‘roeddwn yn cropian i fyny’r llethr.”


## Gwr o wlad y Maori yn anrhydeddu gwaith chwarelwyr

Mae Dr Mark Harvey o **Aotearoa** sef enw’r Maori ar Seland Newydd, yn Uwch Ddarlithydd, Celf ac Addysg, ac yn ymchwilydd ym Mhrifysgol Auckland, Seland Newydd.  Mae hefyd yn artist perfformiad a dawnsiwr ac yn gwneud gwaith ymchwil i gymunedau brodorol yn Seland Newydd.

Fe’i comisiynwyd gan Brifysgol Auckland a Phrifysgol Caerdydd i ddod i Gymru i wneud gwaith ymchwil a chreu adroddiad am gymunedau yng Nghymru, gyda’r bwriad o greu cysylltiadau ieithyddol a diwylliannol rhwng Seland Newydd a Chymru.

Mae wedi teithio i Gymru, ac yn arbennig i Fethesda, oherwydd bod peth cyswllt yn y fro gyda’i hendeidiau o Gymru, ac mae hanes o seiri meini yn ei deulu.

Dydd Mawrth, 22 Ebrill fe greodd Mark ddarn o gelf perfformiad ym Mhrifysgol Bangor dan y teitl “Ponc Pontio”.  Ei weledigaeth oedd ceisio cyfleu sut y sefydlwyd y Brifysgol ym Mangor drwy ymdrechion ac aberth, yn ogystal â haelioni a gwaith caled chwarelwyr yr ardal.  I gyfleu hyn, aeth Mark ati i gropian ar ei bedwar o briffordd yr A5 ger Pontio, Bangor i fyny’r llethr at adeilad y Brifysgol.



**Mark Harvey gyda’i bwn o lechi yn ymlafnio i gario’r llwyth i fyny’r llethr serth tuag at adeilad y brifysgol. Y bwriad oedd symboleiddio llafur ac aberth y chwarelwyr i sefydlu coleg fyddai’n cynnig gwell bywyd i’r gweithwr cyffredin.**




**Mark Harvey, y darlithydd celf o brifysgol Auckland, Seland Newydd yn sefyll wrth lidiart Coleg Bangor. Mae’n edrych ar y llechi wedi eu hysgythru gan Alun Davies, Bethesda sy’n enwi chwech o bonciau Chwarel y Penrhyn.**

**Alun yn egluro ei deimladau’i hun ynghylch y prosiect**

“Hoffwn ychwanegu mod i yn amheus am y prosiect yma ar y cychwyn, ond, erbyn diwedd y “perfformiad a gweld gymaint o ymdrech a roddwyd gan Mark, teimlais ryw agosatrwydd at y fenter.  Roeddwn yn bur deimladwy, gan fod Mark yn gwneud ymdrech yma i goffáu’r hyn oedd fy nghyndadau wedi ei gyflawni, sef rhywbeth na nes i erioed feddwl amdano cyn hyn.  Profais ryw gynhesrwydd wrth feddwl fy mod wedi bod yn rhan o’r perfformiad wrth ganu “Pembroke” tra roedd Mark yn ymdrechu i ddangos trwy gelfyddyd beth oedd y cysylltiad rhwng chwarel a choleg.”





# Rheinallt i'w glywed ar donfeddi Môn FM

**Mae Rheinallt Wyn Davies i'w glywed bob nos Sadwrn ar yr orsaf radio sy'n darlledu o Ynys Môn**



Yn ddiweddar, enwyd aelod o staff Glynllifon, Rheinallt Davies, fel un o gyflwynwyr newydd Môn FM.

Mae Rheinallt, sy'n gynorthwyydd gweinyddol ar gampws Glynllifon, i'w glywed yn darlledu bob nos Sadwrn, ac yn chwarae amrywiaeth o gerddoriaeth Gymraeg a Saesneg.

Yma, mae'n sôn am ei sioe, pwysigrwydd radio Cymraeg, a sut mae myfyrwyr Glynllifon yn helpu i gadw ei gynnwys yn ddifyr.

**Rwyt ti wedi cael dy gyhoeddi fel un o gyflwynwyr newydd Môn FM. Sut daeth hynny i fod?**

Mi wnes i gwrdd â chadeirydd presennol yr orsaf yn ystod Eisteddfod CFfI nôl ym mis Tachwedd 2023. Mi ddaethon ni'n ffrindiau a digwydd bod mi es i i'w barti pen-blwydd yn 21 oed. Dydw i ddim wedi edrych yn ôl ers hynny - mae gwneud sioe radio yn rhywbeth ro'n i wastad eisiau rhoi cynnig arni. Mae'n rhaid bod gen i'r wyneb ar ei gyfer!

**Alli di roi blas i ni o'r math o sioe rwyt ti'n ei chyflwyno?**

Mae gan y sioe dipyn bach o bopeth – ychydig o sgwrsio a cherddoriaeth Gymraeg a Saesneg. Mae'r gerddoriaeth yn amrywio, ac at ddant pawb gobeithio. O'r 60au i'r newydd, ac yn ddwyieithog. Digon o fwydro a dim llawer o sylwedd!

**Pa mor bwysig ydy radio cymunedol?**

Mae'n andros o bwysig. Dim ond Radio Cymru ac S4C sy'n darlledu yn Gymraeg erbyn hyn - un o bob fformat yn y Gymraeg. Mae angen i ni wneud popeth o fewn ein gallu i gadw'r Gymraeg yn fyw, boed hynny yn ein sgyrsiau o ddydd i ddydd neu dros y tonfeddi!

**Wyt ti'n meddwl y bydd gweithio yng Nglynllifon yn dy helpu yn y rôl hon?**

Bydd, yn sicr. Mae bod o gwmpas rhai o'r bobl ifanc yn fy helpu i aros yn ifanc. Mae clywed am beth sy'n bwysig iddyn nhw, ac am beth sy'n ffasiynol ar hyn o bryd neu beidio â thueddiadau o ran cerddoriaeth, bob amser yn gynnwys defnyddiol i unrhyw sioe dwi'n ei chyflwyno.

**Pryd allwn ni diwnio i mewn?**

Mae fy mhrif sioe ymlaen o 10pm-12am ar nos Sadwrn, ond dwi hefyd yn neidio i'r gadair yn Llangefni o bryd i'w gilydd yn ystod yr wythnos. Mae digonedd o ffyrdd i wrando - ar Monfm.co.uk, trwy seinydd clyfar, ap Môn FM, neu ar 96.8, 102.1 a 102.5 FM. Mae croeso i bawb ddilyn 'Rheinallt Davies ar MônFM' ac unrhyw dudalen MônFM yn gyffredinol i hybu'r tudalennau cymdeithasol.

**Beth wyt ti'n mwynhau am weithio yng Nglynllifon?**

Does dim dau ddiwrnod yr un peth - does 'na byth eiliad ddiflas yma yng Nglynllifon. Dwi'n rhan o griw ehangach o bobl sy'n gwneud Glynllifon nid yn unig yn lle gwych i weithio, ond hefyd yn goleg hynod lwyddiannus.

# Troi Llecyn Hardd yn Hyll



Mae'r sbwriel sydd i'w weld yn y llun ym mhen uchaf Allt Ty'n Hendref wrth ymyl Bronnydd Isaf, ac mae'n enghraifft o ddifetha'r amgylchedd naturiol ac anharddu bro. Mae rhywrai anghyfrifol wedi bod yn taflu sbwriel o bob math i'r afon fechan sy'n rhedeg wrth ochr y lôn i lawr i gyfeiriad Ty'n Hendref, gan gynnwys hen dwb a bocs plastig mawr wedi torri. Mae glan yr afon yn un o boteli a chynwysyddion plastig a metal, a gallai'r rhain fod yn beryg bywyd i greaduriaid gwyllt gan fod gwahanol hylifau ynddyn nhw ac arnyn nhw a allai eu gwenwyno.

Mae'n sobor o beth fod yna bobol sy'n barod i wneud hyn yn hytrach na defnyddio canolfan ailgylchu sydd o fewn cyrraedd hwylus. Os fedr rhywun fynd i'r drafferth o fynd i ben Allt Ty'n Hendref i gael gwared â sbwriel, siawns na fedr o neu hi fynd â'r llwyth i Landygái. Ystyrir y llecyn hwn yn hwylus i barcio ar gyfer cerdded y llwybrau troed cyhoeddus sy'n mynd i odre Moel Wnion i un cyfeiriad, a heibio Nant Heilyn a Chras i Aber i'r cyfeiriad arall.

Llecyn arall sy'n dioddef o'r arferiad anghyfrifol hwn ydi pen Lôn Bronnydd sydd heb fod ymhell o ben Allt Ty'n Hendref. Mae rhan uchaf y cae bach sydd islaw pileri llechi'r gilfan barcio yn frith o ganiau a photeli, bagiau a darnau plastig o wahanol faint, a hyd yn oed hen gôt.

Chwith yw gweld llecynnau hardd yn troi'n olygfeydd hyll, ond mae gobaith i'r dyfodol drwy'r ysgolion. Mae'n dda bod cadw'r amgylchedd yn lân a diogel yn rhan o'r cwricwlwm, a bod ein plant a'n pobl ifanc yn cael eu dysgu i werthfawrogi a pharchu eu cynefin. Wrth gwrs, o ran clirio'r sbwriel sy'n cael ei adael hyd y lle yn Nyffryn Ogwen, mae aelodau tîm Balchder Bro Ogwen wedi bod yn gwneud cyfraniad mawr, a hynny'n wirfoddol yn eu hamser hamdden. Yn genedlaethol, ymgyrch ddiweddaraf Cadwch Gymru'n Daclus ydi Gwanwyn Glân Cymru 2025, a gobeithio'n fawr y bydd ymateb da iddi.

## Tregarth

**Olwen Hills** (Anti Olwen), 48 Bro Syr Ifor, Tregarth (600192)
**Angharad Williams**, 23 Ffordd Tanrhiw, Tregarth (601544)
**Gwenda Davies**, Llanfairpwll (gwendaglyn@hotmail.com)

**Gwaeledd**
Anfonwn ein cofion fel ardal at Merfyn Jones, Fferm Dinas, Tregarth, sydd heb fod yn dda ei iechyd ers tro byd ac ymddiheurwn nad ydym wedi cynnwys y newydd yma cyn hyn. Deallwn i Merfyn gael stroc ym mis Ionawr ac ar hyn o bryd mae yn Ysbyty Eryri, Caernarfon. Cofion hefyd at Laura, y plant a'r wyrion. Bu Linda, merch Laura a Merfyn yn wael y llynedd a gobeithiwn ei bod hithau yn gwella yn ei chartref yn Gaerwen.

**Dyweddiad**
Llongyfarchiadau i Tomos Morris Jones, mab hynaf Christine ac Emyr Morris Jones, Lliwedd, Tal y Cae, ar ei ddyweddiad ar Mawrth 15 gyda Seren Haf Jones o'r Nant, yng Nghoedpoeth. Mae'r ddau yn gweithio yng Nghaernarfon, Tomos gyda Chwmni Da a Seren gydag Ysgol Gerdd William Mathias yn Galeri. Pob dymuniad da i'r ddau ohonoch ar yr achlysur hapus yma.

**Merched y Wawr, Cangen Tregarth**
Nos Lun, Ebrill 7 croesawyd yr artist o Fethesda, Cefyn Burgess i'r gangen i sôn am ei waith tecstiliau a'i deithiau tramor, yn arbennig ei brosiect ym Mryniau Casia, yng Ngogledd yr India. Cychwynnodd ei sgwrs drwy sôn am y blychau pren oedd i'w cael yng nghartrefi'r ardal yma a degau o ardaloedd eraill yng Nghymru, y Blychau Cenhadol dan nawdd Capeli Presbyteraidd Cymru, a'r rhain yn cael eu rhannu mewn Ysgolion Sul. Diben y blychau oedd casglu arian tuag at waith y Maes Cenhadol yn yr India a mannau eraill. Penderfynodd Cefyn yr hoffai wybod mwy am y maes Cenhadol a hynny a'i arweiniodd yn gyntaf i deithio i'r India i ddysgu am waith y Cenhadon o Gymru fu'n gweithio yno.

Teithiodd i Fryniau Casia, Bryniau Jainita a Mizoram yn Assam, gogledd yr India. Roedd yn awyddus i ddarganfod beth oedd y cysylltiad rhwng yr ardaloedd yma a Chymru. Noddwyd y daith gan Gelf Cymru Rhyngwladol. Darganfu fod cenhadon o Gymru, yn arbennig y Parchedig Thomas Jones yn 1840, fu'n gyfrfol am gyfieithu y Beibl i'r iaith Cashi. Cyn hynny iaith lafar yn unig oedd eu hiaith. Bu'r cenhadon o Gymru ar hyd y blynyddoedd yn gyfrifol am sefydlu ysbytai, ysgolion, capeli a cholegau ac yn dilyn ei daith gyntaf gwnaeth waith celf hyfryd a lliwgar o rai o'r adeiladau hyn yn ogystal â thai a strydoedd y dalaith. Ymwelodd ag Ysbyty Gordon Roberts yn Shillong lle mae parch mawr o hyd i'r meddygon a'r nyrsus o Gymru fu'n gweithio yno tan ddiwedd y chwedegau, a lle mae llawer o bobl yn dal i'w cofio yn annwyl iawn.Bu arddangosfa lwyddiannus o waith Cefyn, yn dwyn y teitl 'Tu ol i'r blwch' y llynedd yn Storiel, Bangor, yn Mission Gallery, Abertawe eleni, ac mae un arall ar y gweill yn hwyrach, eleni yn y Drenewydd, sef ardal enedigol Thomas Jones.

Yn 2021 bu farw'r delynores Mair Jones, Telynores Colwyn, un fu'n cydweithio gyda Cefyn am flynyddoedd yn ei stiwdio yng Nghanolfan Grefft, Ruthin. Ei dymuniad oedd y byddai ei thelyn yn cael ei chyflwyno fel rhodd i'r Brifysgol ym Mryniau Casia ar ddiwedd ei bywyd.

Gwireddwyd ei breuddwyd drwy law Cefyn a deithiodd yno gyda'r delyn. Bellach mae mwy o delynau wedi cyrraedd yr India o Gymru a phump o delynorion yn dysgu chwarae'r tannau, ac wedi cael hyfforddiant gan delynorion o Gymru fu ar daith yno a gan rai o delynorion yn gysylltiedig ag Ysgol Gerdd William Mathias yng Nghaernarfon. Gobaith Cefyn rwan ydi medru ariannu taith y pump ohonynt i'r Eisteddfod Genedlaethol yn Wrecsam. Cawsom ni fel aelodau o'r gangen gyfle i gyfrannu tuag at y fenter ac os hoffech chi helpu yna cysylltwch gyda Cefyn yng Nghanolfan Grefft, Rhuthun.

Diolchwyd i Cefyn am noson ardderchog a dymunwn y gorau i'r fenter newydd hon o groesawu'r telynorion i Wrecsam ym mis Awst.

Bydd y gangen yn cyfarfod nesaf nos Lun, 12 o Fai yn Festri Capel Shiloh Newydd am 7.30 pan fydd cyfle i groesawu Carrie Rimes fydd yn sôn am ei gwaith 'Caws Cosyn'. Dewch yn llu.

### Capel Shiloh Newydd

Cofiwch bod oedfa bob Nos Sul am 5 o'r gloch a chroeso cynnes i bawb ymuno yn y gwasanaeth.
Mai 18 – Trefniant Lleol
Mai 25 – Dr Ian Morris
Mehefin 1 – Glenys Jones, Pwllheli
Mehefin 8 – Rhian Evans-Hill, Rhiwlas
Mehefin 15 – Philip Barnett, Swydd Efrog
Mehefin 22 – Nerys Griffiths
Drws Agored bob bore Gwener, rhwng 10 a 12 o'r gloch a chroeso i bawb hoffai droi mewn am sgwrs a phaned.

## Nant Ffrancon

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlwn â Mrs Doris Williams, Maes Caradog a William, hefyd Helen a Kevin yn eu profedigaeth fawr o golli brawd ac ewythr annwyl, sef y diweddar Mr. Alun Jones, Pentrefoelas. Cynhaliwyd ei angladd yng nghapel Tabernacl, Llanrwst ddydd Mercher, 30 Ebrill.




BYSUS D. P. OWENS RHIWLAS
01248 361044
07771 634195
Bysus o 25 i 57 sedd ar gael ar gyfer eich holl anghenion teithio - tripiau, priodasau, partion ac ati.
*Bysus Gwyrdd Rhiwlas*
GWASANAETH LLEOL, TRADDODIADOL A DIBYNADWY SEFYDLWYD 1997
PERCHENNOG: DERFEL OWENS

ARBENIGWR MEWN LLORIAU COED CALED
A.G.L. Lloriau
Arbenigwr mewn gosod a selio lloriau coed caled, adnewyddu lloriau gwreiddiol a chyweirio lloriau sydd wedi eu difrodi.
**Andrew G. Lomozik B.A.**
**Ffôn:** 01248 602117
**Symudol:** 07835487909

*I hysbysebu yn Llais Ogwan*
Cysylltwch â ni
**golygydd@llaisogwan.com**

Ogwen Adferiad Corfforol
Proffesiynol, diogel a chyfrinachol
LLEDDFU POEN
Cefn, cyhyrau, esgyrn, cymalau, a thensiwn cur pen
Eli Lichtenstein 07743373895 | info@ogwenphysical.co.uk | ogwenphysical.co.uk
Bethesda RFC Dol Dafydd, Bethesda, Bangor LL57 3NE

# CHWILAIR

## CLWB HANES RACHUB

Yn y Chwilair mis yma mae deuddeg peth yn ymwneud a CHLWB HANES RACHUB i'w darganfod. Unai yn destun, siaradwr / wraig, neu gymeriad. Mae un cliw wedi ei ddangos yn barod. A oes modd i chwi ddod o hyd i'r gweddill? (Mae LL, CH, DD, TH, acyb yn un llythyren yn y Gymraeg, ond i bwrpas y Chwilair dangosir hwynt fel dwy lythyren ar wahân).
Atebion gydag enw a chyfeiriad i Andre Lomozik, Zakopane, 7 Rhos y coed, Bethesda, Bangor, Gwynedd LL57 3NW, erbyn 30 Mai. Bydd gwobr o £10 i'r enw cyntaf allan o'r het. Os na fydd unrhyw un wedi canfod y deuddeg, yna'r rhif agosaf fydd yn cael y wobr. **Cofiwch nid oes angen anfon tudalen y Chwilair o'r Llais i fewn i mi, bydd yr atebion ar ddarn o bapur neu gerdyn yn iawn.**

| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A | A | W | F | T | R | I | P | I | L | A | N | M | O | R | H | R | I | E | J |
| L | D | R | A | H | C | T | I | R | P | N | Y | W | L | I | D | S | C | M | B |
| V | B | S | E | H | G | U | H | N | O | I | F | I | E | H | H | X | J | U | I |
| S | V | S | H | E | I | M | G | V | H | M | D | W | H | A | U | Z | S | M | X |
| V | L | E | I | N | E | P | A | M | A | R | D | I | N | M | W | C | E | A | D |
| D | N | A | P | A | U | Q | U | S | O | F | R | R | P | A | Y | Q | N | Z | G |
| R | H | C | U | M | W | N | O | Y | R | I | O | A | S | D | Z | U | O | T | F |
| D | X | U | P | W | R | H | C | Q | H | B | W | E | H | A | O | Y | J | E | E |
| N | B | G | E | O | M | H | E | P | I | T | T | C | B | M | B | C | E | U | U |
| R | U | J | P | L | T | M | I | N | V | V | D | C | B | C | B | F | N | R | F |
| Y | H | O | G | J | V | I | S | I | R | R | X | I | M | H | H | T | A | T | O |
| G | C | S | S | E | N | O | J | M | Y | L | I | W | G | I | K | O | J | P | W |
| S | A | R | C | M | N | K | C | B | O | R | C | X | V | P | R | Y | Y | H | S |
| E | R | T | M | R | E | F | Y | J | D | Z | H | B | C | S | W | O | R | D | S |
| G | L | C | R | A | I | X | N | I | L | X | J | J | M | B | W | T | A | W | E |
| Y | O | S | U | D | O | F | F | N | A | N | I | A | W | M | A | D | M | G | X |
| D | G | M | D | X | K | F | U | P | C | Q | Y | O | I | L | F | E | R | S | Z |
| D | S | Q | R | O | C | T | D | G | W | S | L | Z | E | B | E | A | J | W | K |
| E | Y | J | C | L | N | L | R | V | O | G | J | P | W | P | G | S | O | U | W |
| M | J | J | Q | U | L | F | S | V | T | X | E | U | G | H | S | L | Z | H | E |

**Dyma atebion Chwilair Ebrill:-** Catherine Jane; Elizabeth Harriet; James Berry; John Daniel; John Murry; Joseph Seth; Mary Ann; Myfanwy Mary; Richard Howell; Thomas Pennant; Watkin Wesley; William John.
**Dyma enwau'r rhai a gafodd hyd i'r atebion cywir:-** Rosemary Williams, Tregarth; Judith Hughes, Llangoed; Emrys Griffiths, Rhosgadfan; Doris Shaw, Bethesda; Nia Wyn Bagnall, Llandygai; Carys Parry, Caerhun; Gwen Davies, Bethesda.
**Enillydd Rhagfyr oedd:-** Carys Parry, 28 Caerhun, Bangor LL57 4UG.


Contractwyr Trydanol

Jones & Whitehead cyf
Swyddfa Gofrestredig Penrala, Tregarth, Bangor, Gwynedd, LL57 4AU
Ffôn: 01248 601257
Ffacs: 01248 601982
E-bost: info@jonesandwhitehead.co.uk

Llais Ogwan

*Pob deunydd i law erbyn dydd Sadwrn, 26 Ebrill os gwelwch yn dda.*

*Oes gennych chi ddiddordeb i hysbysebu yn Llais Ogwan?*

# Natur o'n Cwmpas




Profiad hyfryd bob amser ar ddiwedd yr haf pan oeddem ni'n blant yn yr 1950au oedd mynd i hel llus. Roedd yn arferiad cyffredin i deuluoedd yr ardal, efo'r mamau'n paratoi pryd parod gan mai'r drefn oedd treulio'r diwrnod ar y llethrau. Roedd gofyn cael piser bob un i hel y llus, a nifer o duniau go fawr i ddal y cwbl. Byddai rhai teuluoedd yn tueddu i fynd i'r un llefydd, ac eraill yn eu hamrywio naill o fewn yr un tymor neu o flwyddyn i flwyddyn. Ac roedd digon o ddewis – Cras (rhwng Moel Wnion ac Aber), Allt Tŷ Gwyn (Nant Ffrancon), Cwm Ceunant (eto yn Nant Ffrancon) a Moelyci. Roedd llefydd eraill hefyd, wrth gwrs, ond dyna'r rhai mwyaf poblogaidd gan y teuluoedd yr oeddem ni'n ymwneud â hwy.

Y wobr am dreulio'r dydd ar ochr mynydd oedd cacan lus. Doedd dim i'w churo! Wrth hel y llus, byddai'r plant yn cael eu temtio i fwyta sawl un, a'r lliw piws ar eu gwefusau yn eu bradychu pan oeddynt yn cwyno wrth eu rhieni bod gwaith llenwi'r piser! Sylw rhiant yn aml fyddai "Dowch i fa'ma. Mae 'na rai bras yn fa'ma." Hefyd, "Y gyfrinach i lenwi'r piser ydi hel digon i guddiad ei waelod o gyntaf. Buan iawn fydd o'n llenwi wedyn."

Planhigion bychain yw coed llus – ia, 'coed llus' nid 'llwyni llus' – yn tyfu'n glystyrau dros wyneb pur eang mewn rhai llefydd, a'u cynefin yw tir asidig efo peth lleithder. Ym Mehefin y bydd y blodau pinc ar ffurf clychau yn ymddangos, a daw'r ffrwyth, sef aeron bychain glas tywyll neu ddu-las, rhwng Gorffennaf a Medi. Dônt i'w llawn aeddfedrwydd ar lethrau Eryri ddiwedd Awst a dechrau Medi, yn dibynnu sut fyddai'r tywydd wedi bod cyn hynny. Fodd bynnag, mae tystiolaeth wyddonol fod y ffrwyth wedi bod yn aeddfedu'n gynt dros yr hanner can mlynedd diwethaf, a thybir fod hyn o achos y newid yn yr hinsawdd. Y cofnod cynharaf o'r ffrwyth yn aeddfedu yw Mai 19eg 2020 ar ochr Moelyci gan Megan Jones (cynllun Gwyddoniaeth y Dinesydd).

Mae'r arferiad o hel llus wedi dal yn weddol boblogaidd ond nid yw mor gyffredin ag y bu o bell ffordd. Ers tro bellach, daeth yr aeron gleision – y *blueberries* Americanaidd – i'n harchfarchnadoedd a dod yn hynod boblogaidd. Serch hynny, boed i'r arferiad teuluol o hel llus barhau oherwydd mae'n brofiad dymunol a gwerthfawr am sawl rheswm. Mae'n weithgarwch teuluol, yn gyfle i ddod i adnabod bro gan fwynhau ei golygfeydd a gwerthfawrogi ei byd natur, ac yn fodd i gael blasusfwyd o gynnyrch naturiol, lleol.

---

Mae'r golofn hon yn rhoi sylw i ryfeddodau a gwahanol agweddau ar fyd natur Dyffryn Ogwen a'r cyffiniau, gan fanteisio ar wybodaeth leol ac ar ffynonellau eraill. Rhowch wybod os ydych wedi gweld rhywbeth anarferol ym myd natur yn yr ardal. Anfonwch eich cyfraniadau at Ieuan Wyn, Talgarreg, Ffordd Carneddi, Bethesda LL57 3SG ieuanwyn01@gmail.com 01248 600297.



# Glasinfryn a Chaerhun

**Mair Griffiths**
mairpenybryn@gmail.com 01248 352966

---

**Cylch Glasinfryn**

Bu cyfarfod o Gylch Glasinfryn ar 9 Ebrill yn y Ganolfan, gyda nifer dda o aelodau yn bresennol. Dymunwyd yn dda i Ann Williams oedd yn Ysbyty Gwynedd. Llongyfarchwyd Marian Bryfdir ar ddathlu ei phen- blwydd yn 80 oed yn ystod mis Mawrth. Dosbarthwyd Rhaglenni o gyfarfodydd y Cylch am y flwyddyn sydd i ddod, ac mae'n argoeli yn dda am amrywiaeth dda o siaradwyr.

Cyflwynodd Mair ein siaradwraig am y pnawn, sef Sarah Flynn o Llanfairfechan a oedd wedi bod yn aelod o Sefydliad y Merched pan yn bodoli yng Nghlasinfryn. Bu Sarah yn gweithio fel nyrs iechyd meddwl nes ei hymddeoliad yn ddiweddar ond mae hi yn dal i wirfoddoli yn y gymuned gyda'r rhai sydd yn dioddef iechyd meddwl.

Pan yn aelod o Sefydliad y Merched ysbrydolwyd Sarah gan Alun Pritchard a ddaeth atom nifer o weithiau i sôn am ei waith gwirfoddol yn Ombwai yn Kenya. Byddai Alun yn teithio i Kenya gydag arian oedd wedi ei godi i adeiladu tai, dodrefn sylfaenol, gafr i gael llefrith a chig er mwyn gwneud un teulu yn hunan gynhaliol. Fe gododd Sarah ddigon o arian i dalu i fynd i Kenya ar sawl achlysur i gynorthwyo gyda'r gwaith amhrisiadwy 'roedd Alun yn ei wneud yno yn y cymunedau tlawd. Cafwyd sgwrs ddiddorol iawn gan Sarah ac 'roedd wedi dod a sawl esiampl o ddefnyddiau a creiriau wedi eu gwneud yn lleol gan ferched y pentref.

Rhoddwyd y diolchiadau gan Glenys Morgan. Diolchwyd i Kath, Jean a Barbara Morris am y baned a'r raffl. Margaret Roberts enillodd y raffl.

Ar 14 Mai bydd Steve Greig yn dod atom i roi sgwrs ar Reilffordd Eryri. Yna ar 11 Mehefin bydd Angharad Griffiths yn sôn am Fwyta'n Iach. Mae pob cyfarfod yn dechrau am 2.00yp yn y Ganolfan, ac mae croeso cynnes iawn i chwi ymuno â ni.

**Bingo Bach**

Da iawn oedd gweld cynifer yn y Bingo ar 25 Ebrill yn y Ganolfan, gyda'r elw yn mynd i'r Ambiwlans Awyr. 'Roedd elw y Bingo fis Mawrth yn mynd at Gymdeithas Alzheimer's yn lleol. Aeth Mair â'r arian a godwyd, £265, i Blas Hedd ym Maesgeirchen lle mae Uned Dementia, yn ogystal â rhai yn mynychu yn ddyddiol. Diolch yn fawr iawn i bawb am bob cyfraniad tuag at y nosweithiau Bingo - gwerthfawrogir yn fawr. Bydd y Bingo nesaf ar 30 Mai am 7.00yh gyda'r elw yn mynd tuag at Dîm Achub Mynydd Dyffryn Ogwen - dowch yn llu!

**Profedigaeth**

Yn frawychus o sydyn ar fore Gwener 25 Ebrill bu farw Alan Griffith, Bryn Gwredog Isaf, Waen Wen ac yntau ond yn 64 oed. Cydymdeimlwn â'i fam Mrs Cromwell Griffith, y meibion, Dewi a Rhys, yr wyrion Cadi, Siwan a Guto a'r teulu oll yn eu tristwch a'u galar, - bydd colled fawr ar ei ôl.

# Gair neu ddau

## John Pritchard

# DUW'R PENTECOST

Gan fod dyddiad y Pasg yn amrywio o'r naill flwyddyn i'r llall mae'r un peth yn wir am y Sulgwyn a ddethlir saith wythnos yn ddiweddarach. Pasg hwyr gafwyd eleni ar Ebrill 20fed. A Sulgwyn hwyr geir o'r herwydd, ar Fehefin 8fed.

Am unwaith, felly, mi rydw i'n gynnar! Un o beryglon colofn sy'n naturiol yn trafod y gwyliau Cristnogol yn eu tro ydi ail adrodd yr un neges. Rhag gwneud hynny efo'r Sulgwyn eleni, mi fynnais gip sydyn ar golofnau'r blynyddoedd diwethaf. Ac o wneud hynny, dychryn wrth sylweddoli na soniais unwaith – mewn deng mlynedd gyfan – am yr Ŵyl hon. Do, aeth pob Mai a Mehefin heibio heb i mi ddweud gair amdani. Ac felly, dyma fentro dweud rhywbeth y tro hwn, hyd yn oed os ydw i fis yn gynnar.

Y Sulgwyn, neu'r Pentecost, sy'n dathlu tywalltiad yr Ysbryd Glân ar ddisgyblion Iesu Grist hanner can diwrnod wedi'r Pasg. Dyna i bob pwrpas ddydd geni'r Eglwys Gristnogol. Wrth ddathlu'r Ŵyl, mae'r Eglwys nid yn unig yn cofio dechreuad dramatig ei chenhadaeth ond yn cydnabod hefyd mai trwy nerth yr Ysbryd Glân yn unig y medr gyflawni ei gwaith ym mhob cyfnod. Bu'r Ysbryd a dywalltwyd y diwrnod hwnnw'n arwain a chynnal yr Eglwys ar hyd y canrifoedd. Mae'n parhau i wneud hynny. Ac mae Cristnogion pob oes yn gwybod na fedran nhw wneud dim na phrofi'r un fendith yng ngwaith Crist heb gymorth ac arweiniad a nerth ei Ysbryd. Mae'r Pentecost yn ein hatgoffa o bresenoldeb parhaus yr Ysbryd a roddwyd.

Ond mae'r Ŵyl yn ein hatgoffa hefyd y gall yr Ysbryd hwn ar adegau ddod mewn ffordd neilltuol a nerthol i fywhau'r Eglwys ac i rymuso'i thystiolaeth. Cafwyd prawf o hynny lawer gwaith yng Nghymru dros y canrifoedd mewn diwygiadau a ddaeth â miloedd o bobl at Grist ac a adawodd eu hôl ar fywyd cymdeithas a chenedl. Mae canrif a chwarter bron ers i ddiwygiad 1904-05 sgubo trwy Gymru, ac ers blynyddoedd bu llawer yn dyheu ac yn gweddïo ar i Dduw anfon diwygiad arall.

Mi all Duw ateb y gweddïau hynny. Mae'n fwy nag abl i roi diwygiad a fydd yn plygu pobl o'i flaen ac yn rhoi bywyd newydd iddyn nhw. A'r peth cyffrous ydi na ŵyr neb ohonom sut na phryd na lle y gall peth felly ddigwydd. Mae Duw'n gweithio yn ei ffordd a'i amser ei hun. Mae hanes disgyblion Crist a dechreuadau'r Eglwys yn profi hynny. Felly hefyd ddiwygiadau a chyfnodau bendith y canrifoedd. Ac felly hefyd fy hanes innau. Welais i ddim diwygiad yn newid gwlad, ond mi brofais gyffro blynyddoedd fy ieuenctid. Mi fedraf dystio i'r hyn a wnaeth Duw wrth iddo fywhau ac aileni nifer fawr o bobl ifanc. Wn i ddim pam y mynnodd y Brenin Mawr gyffwrdd â'r bobl hynny. Wn i ddim pam y daeth â nhw at Grist. Doedden ni ddim yn arbennig o grefyddol nac yn amlwg awyddus ar y pryd i fentro dilyn llwybr gwahanol y Ffydd. A byddai'r mwyafrif ohonom yn cydnabod na fuon ni mor ffyddlon ag y dylen ni fod i'r Gwaredwr dros y blynyddoedd ers hynny. Ond yr Ysbryd Glân oedd ar waith, heb os.

A'r hyn a wn ydi y medr Duw wneud peth tebyg eto. Mi all hefyd wneud peth hollol wahanol. Ac mi all wneud peth mwy a chan mil gwell hyd yn oed am mai Duw'r Pentecost ydyw o hyd.

## Capel Carmel

**Gwasanaethau** (am 5 o'r gloch oni nodir yn wahanol)
Mai 18: Oedfa gan yr Ysgol Sul a'r Clwb Dwylo Prysur.
Mai 25: Parchg. Mererid Mair.
Mehefin 1: Mr. Richard Parry Jones.
Mehefin 8: Parchg. Hugh Pritchard.
Mehefin 15: Parchg. Dafydd Coetmor Williams.
Ysgol Sul: 10.30yb.
Clwb Dwylo Prysur: Nos Wener am 6.30yh.

CROESO CYNNES I BAWB

**Cydymdeimlo**

Yn drist iawn, ar ôl cyfnod o waeledd mawr, bu farw Mrs Rhian Roberts, Rhes Buddug, Bethesda. Bu Rhian yn glaf mewn ysbyty ar sawl achlysur yn ystod y blynyddoedd diwethaf yma ac ni chawsom ni ei gweld hi yn y capel ers amser maith iawn. 'Roedd Rhian yn ddiacon yng Ngharmel ac 'roedd hi'n cyfeilio ar gyfer yr oedfaon yn ffyddlon am lawer o flynyddoedd ar yr organ a'r piano. Gwnaeth gyfraniad sicr at fywyd ac addysg cerddoriaeth yn y fro hefyd. Rydym ni'n cydymdeimlo efo'i gŵr, Gwyn; Mared ei merch ac Alan, sef gŵr honno; yn ogystal â'i hwyresau Seirian ac Elith a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth.

Ar fore Sul y Pasg yn drist iawn, bu farw Miss Deila Griffith, gynt o Fetws y Coed. Cafodd Deila ei magu yn un o blant Carmel hyd nes y bu i'w rhieni hi symud i fyw i Fethesda ac wedyn i Bentir. Daeth hi yn aelod yng Ngharmel ar ôl iddi symud i fyw i Fetws y Coed lle bu hi'n athrawes am nifer fawr o flynyddoedd. 'Roedd hi'n arddel ei chysylltiad ac 'roedd lle pwysig i Rachub a'r capel yn ei chalon hi ar hyd ei hoes. Cafodd flynyddoedd o wendid yn y pen diwethaf, ond 'roedd ganddi hi aelodau o'i theulu a fyddai'n ymweld â hi'n rheolaidd ar ei haelwyd ac yn y cartref preswyl wedyn.' Rydym ni'n cydymdeimlo efo'i chefndryd a'i chyfneitherod, a'u teuluoedd nhw i gyd.

Cafodd Mrs Mair Thomas brofedigaeth o golli ei gŵr, Frank. Roedd Frank wedi bod yn wael iawn ac 'roedd yn un o'r preswylwyr yng nghartref Plas Ogwen ar ddiwedd ei oes. Bu Mair yn ofalus iawn o'i gŵr ac mi fyddai hi'n mynd i'w weld yn y cartref preswyl bob dydd bron iawn. 'Rydym ni'n cydymdeimlo efo Mair a'u merch, Wendy a Chris eu mab, a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth.

**Yr Ysgol Sul**

Daeth Mr Stella Davies ag ymwelydd atom ni i'r ysgol Sul un bore. Yn wreiddiol o Sri Lanka, mae Sarancha (Shara) wedi dod i fyw i Rachub gyda'i gŵr, Rameshkanthan (Ram), ac mae'r ddau ohonyn nhw'n cadw'r siop a swyddfa'r post yma. Mae'r pentref wedi bywiogi llawer ers i'r ddau ohonyn nhw ddod yma i redeg y busnes ac mae pawb o'r farn fod y ddau yn gyfeillgar tu hwnt. Roedd Shara yn awyddus i weld y capel a'r ysgol Sul. Iaith y Tamil yw ei mamiaith hi ac mae hi wedi dechrau dysgu Cymraeg. Mi gawsom ni amser braf iawn yn ei chwmni.



# Rachub a Llanllechid

**Emlyn Williams**, Pont Llan,
Llanllechid, Bangor, LL57 3LE
(07887624459)
henbarc13@gmail.com

**Cydymdeimlad**
Gyda chalon drom, 'rydym yn hysbysu marwolaeth annisgwyl Alwyn Bevan, Red Lion, Llanllechid a fu farw'n sydyn ar 12 Ebrill 2025. Gŵr cariadus i Glena, tad balch i Rhys, a thad-yng-nghyfraith caredig i Emma. Taid hoffus i Harri a Jac a brawd i Edwina.

Roedd Alwyn yn ŵr o argyhoeddiad a chariad dwfn at ei wlad a'i diwylliant drwy ei waith diflino i rygbi yn lleol ym Methesda, Bangor, Gogledd a Rhanbarthau Cymru, ac wedyn gyda Chôr Rygbi Gogledd Cymru, Cymdeithas Hedd Wyn yn Fflandrys a'r gofeb Gymreig yno.

Fe wnaeth gyfraniad dihafal i'w gymdeithas ac i goffáu aberth y Cymry yn y Rhyfel Byd Cyntaf ac i sicrhau na fyddai enwau megis Hedd Wyn byth yn cael eu hanghofio. Cydymdeimlwn yn ddwys â'r teulu.

**Clwb Hanes Rachub**
'Stori a Chân' gan Hogia'r Bonc.
I gloi tymor hynod lwyddiannus o gyfarfodydd Clwb Hanes Rachub, daeth Hogia'r Bonc i'n difyrru gyda phentwr o hanesion am eu teithiau'n perfformio i gynulleidfaoedd ar hyd a lled Cymru a thu hwnt, yn ogystal â detholiad o'u caneuon mwyaf poblogaidd. Y cyn aelod, Rhys Llwyd gyda chymorth Alun y gitarydd oedd yn dweud yr hanes, ac mae'n anodd credu bod y grŵp wedi ei sefydlu ers Hydref 1998 gan berfformio yn lleol ar y cychwyn, mewn llefydd fel y Caban Gerlan, Y Clwb Criced, cartrefi hen bobl, capeli a.y.b. O dipyn i beth, daeth y galwadau



ar yr hogia' i berfformio yn fwy niferus, felly roedd rhaid cael mwy o ganeuon, ac wrth lwc, roedd Menai Williams cyn arweinyddes Côr y Penrhyn yn ddigon bodlon trefnu'r gerddoriaeth ar eu cyfer. Hefyd, deuai galwadau o ardaloedd eraill yng Nghymru, felly daeth D. P. Owens Rhiwlas i'r adwy, gyda'i 'Fysys Gwyrdd'. Cafwyd cryno ddisg yn 2001, sef 'Y Rheol Bump', a oedd yn llwyddiant mawr, yn enwedig yn nhafarn 'Y Tap' ym Mlaenau Ffestiniog, lle clywyd caneuon Hogia'r Bonc drwy'r dydd POB dydd ar un adeg! Cafwyd storïau difyr am eu hymweliadau niferus â Blaenau, Aberdaron, Llandegfan, Glynllifon, a Mart Bryncir ymhlith llawer o lefydd eraill, heb sôn am eu helyntion yng Nghaerdydd, Pontypridd (ar ôl darganfod bod hanner eu hoffer sain wedi ei adael ar ôl ym Methesda!) ac Iwerddon 2003 - pan gyfeiriwyd atynt gan griw o ferched fel 'boy band'!

Yng nghanol yr holl ganu a rhialtwch, ni ellir anghofio fod Hogia'r Bonc wedi codi cannoedd os nad miloedd o bunnau dros y blynyddoedd tuag at elusennau ac achosion da lleol, felly diolch i'r aelodau gwreiddiol sef Rhys, Alun, Ieu, Walter, Gwyn, Brian, Tom a'r diweddar Phil Watts ac Eilir Jones am gychwyn yr holl sioe, ac yna i'r aelodau a ymunodd wedi hynny sef Gareth Post, Derek, Alwyn, Brynmor, Bryn, Maldwyn, Henryd y feiolinydd a Gareth y drymiwr.

Daethpwyd â'r cyfarfod i ben yn y ffordd arferol, sef PAWB yn canu a 'reidio' 'Hen Feic Peniffardding' dan arweiniad Tom ar ben y bwrdd wrth gwrs! Diolch hogia' am noson werth chweil!

Diolch i bawb am eich cefnogaeth drwy'r tymor. Bydd y Clwb Hanes yn cychwyn eto fis Medi nesaf.



**Priodas**
Llongyfarchiadau mawr i Gwion Emlyn Williams (Henbarc gynt) ac Anna Powys (Caerdydd) ar eu priodas yng nghapel Salem, Canton dydd Sadwrn Ebrill 25 ain. Dymuniadau gorau iddynt i'r dyfodol ac i Soffia bach.





## Adroddiad Cyngor Cymuned Llanllechid

Cynhaliwyd y cyfarfod ar Nos Iau, Mawrth 13fed, a chadeiriwyd y cyfarfod gan Y Cynghorydd Lowri Evans.

Cafwyd trafodaeth fuddiol gyda Naomi Jones, Marian Pye ac Abbie Edwards o Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Trafodwyd y cyfarfod agored diweddar am ddyfodol Merlod y Carneddau. Bu'n gyfarfod llwyddiannus a'r gobaith yw cael ail gyfarfod mewn 6 wythnos. Nodwyd pwysigrwydd casglu gwybodaeth am iechyd y merlod.

Mae torri eithin wedi dod i ben am rwan, a derbyniwyd adborth positif am y gwaith.

Cynhaliwyd cyfarfod mis Ebrill ar Nos Iau y 10fed. Cadeiriwyd y cyfarfod gan yr Is-Gadeirydd, Y Cynghorydd Rhydian Williams.

Dyma'r cyfnod pan fydd trefniadau'n cael eu gwneud i dorri llwybrau troed y plwyf. Os gwelwch yn dda cysylltwch â **cyngorllanllechid@ogwen.org** os oes unrhyw lwybrau troed yn y plwyf y credwch sydd angen sylw.

Hefyd, mae sedd wag wedi ei hysbysebu yn Ward Llanllechid Uchaf, felly os oes gennych ddiddordeb, cysylltwch â **cyngorllanllechid@ogwen.org**

Cynhelir y cyfarfod nesaf/cyfarfod blynyddol ar y 8fed o Fai.


## Bethesda

**Mary Jones**
maryeds@hotmail.co.uk (07443 047642)
**Joe Hughes**, Awel y Nant, Ffordd Ffrydlas, Bethesda (601902)

**Ysbyty**
Wrth i'r Llais fynd i'r wasg, daeth y newyddion fod un o hoelion wyth y papur, Neville Hughes, Ffordd Pant, wedi'i daro'n wael a'i gymryd i'r ysbyty. Fel panel a chymuned, dymunwn adferiad llwyr a buan iddo.

Bu Mrs. Vera Morgan, Maes y Garnedd, yn yr ysbyty am ychydig ddyddiau wedi iddi ddisgyn yn ei chartref. Da deall ei bod gartref ac yn gwella.

**Babi Newydd**
Llongyfarchiadau i John a Gwen Davies, Tanysgrafell, ar yr achlysur hapus o ddod yn hen-daid a hen-nain i ferch fach ar 30 Mawrth.




**Gartref**
Braf yw cael croesawu Gwyn Williams, Carneddi/Maes y Garnedd, a gyrhaeddodd gartref ar ddydd Mawrth 29 Ebrill, wedi bron i flwyddyn mewn ysbyty.

**Cartrefi Newydd**
Croeso cynnes i Dorothy Hughes i'w chartref newydd ym Maes y Garnedd.

Croeso hefyd i Karen Bullock i'w chartref newydd ym Maes y Garnedd. Gobeithio y byddwch yn hapus ym Maes y Garnedd wedi blynyddodd o fyw yng Nghiltrefnus, Y Gerlan.

Dymuniadau gorau i Jean Ogwen Jones, Ffordd Coetmor, sydd wedi ymgartrefu yng Nghae Garnedd, Penrhosgarnedd, Bangor.

**Ymddeol**
Ymddeoliad hapus i Glyn ac Ann Williams wedi sawl blwyddyn o redeg Tafarn y Tarw (Y Bull). A phob dymuniad da i'r ddau Dewi sydd wedi cymryd drosodd.

**Priodas**
Ar ddydd Sadwrn y Pasg yng ngwesty'r Celtic, Caernarfon bu priodas Mr. a Mrs. Elfyn Bullock, Bryn Caseg. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da.

**Marw**
*William Richard Jones*
Ar 20 Mawrth, yn sydyn yn ei gartref ym Maes y Garnedd, bu farw Richard William Jones yn 85 oed. Priod annwyl y diweddar Mrs. Enid Jones, tad hoffus i Gwilym a Gwyneth, a thad-yng-nghyfraith Marina a'r diweddar Peter. Taid i Harri ac Ella. Roedd yn ŵr tawel a pharchus, ond bob amser yn barod am sgwrs â phawb. Bu ei angladd yn Eglwys Crist Glanogwen a Mynwent Coetmor ar ddydd Mercher, 16 Ebrill, dan arweiniad y Parchedig Sara Roberts, gyda Mrs Christine Edwards wrth yr organ. Cydymdeimlwn â chwi fel teulu i gyd.

*Elisabeth Rhian Roberts*
Yn Ysbyty Eryri, Caernarfon, ar 3 Mawrth, bu farw Elisabeth Rhian Roberts, Rhes Buddug, yn 77 oed. Priod annwyl i Mr. Gwyn Rpberts, mam a mam-yng-nghyfraith i Mared ac Alan a nain hoffus i Seirian ac Eleth. Un o Ystalyfera yn y De oedd Rhian, yn ferch i'r diweddar annwyl Barchedig Eurof a Mrs. Annie May Jones. Cafodd ei haddysg yn Ystalfera a'r Coleg ym Mangor. Wedi priodi â Gwyn, cafodd swydd yn Llundain a bu'n aelod yn Radnor Walk, capel yr Annibynwyr. Yna symud i Fethesda a chael swydd dysgu cerdd a gorffen ei gyrfa yn Bennaeth Cerdd yn Ysgol Dyffryn Conwy. Bu hefyd yn dysgu sawl un i ganu'r piano, yn gyfeilydd yn Eisteddfod Dyffryn Ogwen, yn beirniadu a chyfeilio yn Eisteddfod yr Urdd, ac yn arweinydd sawl côr. Bu'n aelog selog yng Nghapel Carmel, Llanllechid ble'r oedd yn ddiacon ac organydd. Cynhaliwyd ei hangladd fore Mawrth, 6 Mai yn Amlosgfa Bangor dan arweiniad y Parchedig Dyfed Roberts. Cydymdeimlwn â chi i gyd fel teulu.

*Frank Thomas*
Ar ddydd Sadwrn y Pasg bu farw Mr. Frank Thomas, Llety'r Adar. Priod Mrs. Mair Thomas a thad a thai annwyl. (Mwy o hanes yn y rhifyn nesaf o'r Llais.)

### Yr Eglwys Unedig

**Oedfaon**
Yn ystod yr wythnosau diwethaf, derbyniasom wasanaeth ein Gweinidog, Mr Donald Pritchard, a'r Parchedig Gwenda Richards – diolch yn fawr iawn iddynt am eu myfyrdodau gwerthfawr. Cawsom hefyd y fraint o wahodd ein cyfeillion o'r ofalaeth atom, a daeth nifer teilwng iawn i'r oedfa honno. Byddwn ninnau'n ymweld â Chysegr, Bethel yn ystod mis Mai, ac edrychwn ymlaen at hynny.

**Cofion**
Anfonwn ein cofion cywiraf at yr aelodau hynny sydd yn methu bod gyda ni mewn oedfa ar hyn o bryd, gan ddeisyfu pob bendith iddynt.

**Symud**
Mae Mrs Jean Ogwen Jones wedi symud i fyw i Gae Garnedd, Bangor. Y newydd da i ni yw bod Jean am barhau i fod yn aelod a blaenor yn Jerusalem, fel y bu ers blynyddoedd maith bellach. Pob dymuniad da i chi yn eich cartref newydd, Jean.

**Dathlu**
Yn ddiweddar bu Rita ac Elfed Bullock yn dathlu priodas eu mab, Elfyn â Sharon. Anfonwn ein llongyfarchiadau, a'n dymuniadau gorau i'r ddau.

**Diolch**
Hoffem ddiolch o galon i Emyr Roberts am ei waith clodwiw yn cadw'r ardd mewn cyflwr da. Gobeithio y bydd y rhai sydd yn ei defnyddio yn ei pharchu yn well nag y maent ar hyn o bryd!

**Y Gymdeithas**
Pleser mawr oedd gwahodd y Parch. Wynne Roberts atom i'n diddanu heno, ac yntau wedi gorfod gadael yn fuan y llynedd oherwydd salwch. Croesawyd ef gan Neville, y Llywydd, ac wrth ymateb, eglurodd Wynne mai hwn oedd y tro cyntaf iddo ganu i gyfeiliant y gitâr yn unig.

Fe gyflwynodd raglen amrywiol a difyr dros ben gan lwyddo, ymysg eitemau eraill, i blethu'r ddwy iaith yn gelfydd yn yr un gân, a rhoi geiriau emyn cyfarwydd ar dôn gan Elvis.

Rhwng y caneuon, clywsom hanesion bach difyr o'i brofiad personol, ac ychydig o hanes Elvis Presley a'i gyfoedion. Soniodd fel y bydd yn hoffi defnyddio ei lais a'i gitâr i ddod â chysur i gleifion yn yr ysbyty, yn enwedig pan fydd y côf yn dechrau pallu.Braf oedd deall ganddo, ar ddiwedd y noson, iddo deimlo'n gartrefol yn ein plith.

Diolchodd Neville i Wynne gan fynegi'r gobaith y daw atom eto yn y dyfodol. Yr oedd cymeradwyaeth y gynulleidfa yn cadarnhau'r dymuniad. Anwen, Carys a Nia fu'n gyfrifol am y baned - diolchwn iddynt am eu gwaith.

Cynhelir Cyfarfod Blynyddol y Gymdeithas ddydd Iau, Mai 15ed am 10:30 yn Festri'r Capel. Gobeithiwn ddewis swyddogion a phwyllgor ar gyfer y tymor nesaf, a chroesawn awgrymiadau am siaradwyr a diddanwyr. Byddwn hefyd yn casglu enwau ac arian ar gyfer y Wibdaith. Estynnir gwahoddiad cynnes i aelodau hen a newydd.

**Cyhoeddiadau'r Sul**
Mai 18: Gweinidog (10)
Mai 25: Mr Donald Pritchard (5)
Mehefin 1: Y Parchedig Eric Jones (5)
Mehefin 8: Gweinidog (10)
Mehefin 15: Mrs Eirlys Williams (10)

## Eglwys Crist, Glanogwen

**Amlenni Rhodd**
Diolch i bawb am eu cyfraniadau cyson trwy'r amlenni wythnosol – mae'r cyfraniadau hyn yn holl bwysig tuag at gostau'r eglwys. Cofiwch hefyd gysylltu os oes gennych amlenni ac yn methu mynychu'r eglwys ar hyn o bryd,- gallwn alw amdanynt.

**Cofion**
Anfonwn ein cofion cynhesaf at bawb o'n haelodau a'n hanwyliaid sydd yn wael neu'n gaeth i'w cartref, gan ddymuno gwellhad a chysur i bawb sy'n dioddef mewn unrhyw fodd. Edrychwn ymlaen yn fawr at weld ein ficer, y Parchedig Ddr. Gareth Lloyd, yn ôl wrth y llyw, ac yn arwain ein gwasanaethau.

**Gwasanaethau Eglwys Crist**
Pob Bore Mercher am 10.30 y bore – Cymun Bendigaid neu Foreol Weddi, a phaned a sgwrs i ddilyn.

**Gwasanaethau'r Pasg**
Nos Iau Cablyd:
Gwasanaeth am 7yr hwyr yn Eglwys Glanogwen
**Dydd Gwener y Groglith**
Gwasanaeth 'Wrth y Groes' yn Eglwys Glanogwen am 2 y prynhawn
Dydd Sul y Pasg
Cymun Bendigaid am 11 y bore

Croeso cynnes i bawb i'r holl wasanaethau.

**Manylion cyswllt**
Gellir cysylltu â'r Parchedig Sara Roberts ein offeiriad cynorthwyol ar 07967652981. Mae'n diolch fel eglwysi Bro Ogwen yn ddiffuant iawn i Sara, sy'n gweithio'n galed iawn i lenwi pob bwlch yn ystod anhwylder ein ficer.

**Dyfodol Yr Eglwys**
Mae cronfa'r Apel yn dal i fynd, er mwyn cadw'r eglwys ar agor er defnydd y gymuned. Os hoffech gyfrannu, mae cronfa Gofundme yn dal ar agor, lle mae'n bosibl cyfrannu'n uniongyrchol.

Neu beth am feddwl am drefnu rhyw achlysur i godi arian – mae pob cyfraniad yn help. Diolch o galon i bawb.

Clwb Cant – enillwyr mis Mawrth
1af – Mandy Roberts
2il – Colin Keyse

# O Ogwen Tigers, i chwarae i Gymru!!

Mae wedi bod yn daith anhygoel i Gruff Beech a Max Williams, o chwarae gydag *Ogwen Tigers* dan 6 oed, i ennill cap i Gymru gyda Thîm Pêl-droed Ysgolion Cymru. Llwyddodd y ddau i godi trwy academïau lleol fel Llandudno, Caernarfon a TNS, gan gyflawni llwyddiannau arbennig ar y ffordd, fel treialon yn Everton ac Abertawe. Dyma adroddiad Gruff Beech ar eu profiadau.

Pan oeddan ni'n dechrau chwarae i dîm dan 6 oed Ogwen Tigers, wnaeth Max a fi erioed ddychmygu y bysa ni'n derbyn cap i Gymru!

Ein tadau ni'n dau wnaeth ddechrau'r daith i ni, a sbarduno'r freuddwyd: Mathew Williams, tad Max, yn rheoli *Ogwen Tigers*, a nhad i, Dafydd Beech, yn helpu. Ymhen dim, dyma sylwi bod gennym ni dalent a chawsom ein derbyn i Academi Llandudno dan 9.

Cawsom ein derbyn tua'r un pryd i garfan Ysgolion Gwynedd, ac ennill trwy Gymru yn ein blwyddyn gyntaf. Daethom i ddeall bod llwybr yn agor o'n blaenau, a chyfle yn y dyfodol i oreuon y tîm hwnnw chwarae nid yn unig i'w Sir, ond i'w gwlad. Breuddwyd yn wir!

Wedi dwy flynedd yn Llandudno, daeth siom fod yr Academi'n gorfod cau. Ond, gan fod dau hogyn o Fethesda wedi sefyll allan yn y tîm, fe gawson ni le yn syth yn Academi Caernarfon.

Yno, llwyddodd Max a fi i arwain tîm Caernarfon lawer uwch na'r disgwyl. Bron i 40 gôl mewn tymor i mi, a Max fel wal yn y cefn, yn tawelu ymosodwyr y timau eraill gan ildio dim.

Yn dilyn hynny, cawsom ein dau bron i 3 mis o dreial yn Everton, tridiau bythgofiadwy i mi yn ymarfer gydag Academi Abertawe, a Max yn cael cynnig arwyddo i'r Seintiau Newydd. Fe fydden ni'n chwarae yn erbyn ein gilydd am sbel – fi yn Gapten Caernarfon, a Max yn cryfhau tîm TNS!

Ond y deuddeg wythnos diwethaf sydd wedi dod â'r cyfleoedd mwyaf anhygoel.

Y ddau ohonom yn cael cynnig treial 8 wythnos yng nghlwb pêl droed Wrecsam, ac felly'n cael chwarae gemau ac ymarfer gyda'n gilydd unwaith eto, deirgwaith yr wythnos.

Ac yn dilyn chwarae i dîm Ysgolion Gwynedd dros y blynyddoedd, daeth yr alwad i fynd ar dreial ar gyfer tîm Ysgolion Cymru. Roedd y freuddwyd yn dod yn nes.

Yna daeth y newyddion anhygoel ein bod ni'n dau wedi ein dewis i Garfan Ysgolion Cymru! Roedd 4 gêm gyffrous dros ein gwlad i ddod: Manchester United, Everton, Chelsea, a'r mwyaf ......Lloegr. Profiadau gwych mewn llefydd anhygoel, a phob gêm yn galed. Roedd yn rhaid gwisgo crys a thei i gyrraedd y gemau, a chawsom dei Cymru i gynrychioli ein gwlad. Braint oedd cael gwisgo kit Cymru ar y cae wedyn.

Ac yna, ar Fai'r 5ed (diwrnod fy mhen-blwydd yn 14 oed!), daeth y gêm bwysicaf oll, y gêm i ennill cap dros ein gwlad. Cymru yn erbyn Lloegr yng Nghaerdydd! Daeth ein teuluoedd i gyd i gefnogi, ac roedd yn ddiwrnod bythgofiadwy.

Buddugoliaeth enfawr i ni gan guro 4-0 i gadarnhau ein capiau cyntaf, gan obeithio y bydd mwy i ddod.

**Gruff Beech**



# YSGOL LLANLLECHID

**Eisteddfod y Sir, Pontio**
Llongyfarchiadau i'r Côr ar eu perfformiad yn yr Eisteddfod Sir. Fe ganodd pawb yn arbennig o dda, ac roedd sglein wirioneddol ar eu perfformiad. Diolch arbennig i Mrs Delyth Humphreys a Mrs Nerys Tegid am eu gwaith hyfforddi trwyadl.

Llongyfarchiadau hefyd i Elsi Allsup ar ei llwyddiant yng nghystadleuaeth Unawd Cerdd Dant. Derbyniodd Elsi y drydedd wobr ac rydym yn falch iawn ohoni.

Llongyfarchwn Efa Rhos hefyd ar berfformio mor dda yng nghystadleuaeth Llefaru a'r Unawd Cerdd Dant yn y rhagbrofion.

Yn yr un modd, llongyfarchwn Hari Bardsley ac Erin Môn ar eu camp yn canu'r ddeuawd. Diolchwn hefyd i Meinir Jones am ei gwaith hyfforddi.



**Capel Carmel**
Llawer iawn o ddiolch i Mrs Helen Williams am y croeso cynnes unwaith yn rhagor. Cafodd dosbarth Mrs Nottingham fodd i fyw yn y capel a'r festri.

**Ras Moel Wnion**
Cynhaliwyd y ras Moel Wnion flynyddol yn ddiweddar. Diolch i Ross Roberts, cyn riant am drefnu'r cyfan oll. Diolch arbennig i Ceri Evans, Cadeirydd y Pwyllgor, ac i Ms Leanne, Anti Sharon, Catrin Heledd, Iona Williams a Paula Owen am eu gwaith yn y gegin. Cafwyd cyfle arbennig i agor drysau'r ysgol i redwyr ar draws y Gogledd. Codwyd £210.70 tuag at Gronfa'r Ysgol. Penigamp!.

**Taith Pontydd**
Cafodd Blwyddyn Pedwar fodd i fyw yn ymweld ag Amgueddfa'r Pontydd ym Mhorthaethwy a chafwyd cyfle i gymryd rhan mewn gweithdai, cyn cerdded dros ac o dan Bont Menai. Diwrnod hyfryd.

**Te Bach y Pasg**
Cafodd dosbarth Mrs Williams de bach cyn y gwyliau. Pawb wrth eu boddau!

**Noson Bingo**
Llawer o ddiolch i Mrs Ceri Evans, Cadeirydd y Pwyllgor Rhieni / Athrawon am ei gwaith caled yn trefnu'r Bingo Pasg. Diolch o galon hefyd i bawb arall a fu'n helpu. Cafwyd noson lwyddiannus dros ben. Gwnaethpwyd elw o £611 i gronfa'r ysgol. Diolch yn fawr i Maldwyn am alw'r rhifau ac i'r Clwb Criced am gael dod draw. Gwnaethpwyd elw o £611 i'r ysgol. Diolch i bawb!

**Menter a Busnes Bl 4**
Bu Blwyddyn 4 yn brysur yn creu cynnyrch, ac yn datblygu eu sgiliau mentergarwch. Y pinacl oedd cael gwerthu eu campwweithiau i rieni!

**Diwrnod Trwynau Coch**
Diolch i bawb am ymuno yn y bwrlwm. Codwyd £179.63 tuag at yr elusen. Diolch i bawb.

**Stroliwch a Rholiwch**
Diolch i'n disgyblion hynaf, sef dosbarthiadau Mrs Llinos Wilson a Ms Gwenlli Haf am drefnu'r ymgyrch ' Stroliwch a Rholiwch' yn ystod mis Mawrth. Nôd yr ymgyrch oedd annog teithio iach i'r ysgol a lleihau niferoedd y ceir. Trefnwyd 'bws cerdded' a bu rhai o'r staff yn tywys y disgyblion o geg Maes Bleddyn ac o ochor Plas Ffrancon. Yn dilyn hyn, cynhaliwyd cyflwyniad arbennig i'r ysgol gyfan yn croniclo'r cyfan oll! Ar neges fawr? Daliwch ati i gerdded, a defnyddio Lôn Bach Odro!

**Diwrnod y Chwedegau**
Bu dosbarthiadau Mrs Humphreys, Miss Evans a Mrs Tegid yn cynnal diwrnod i ddathlu'r chwedegau, gan rannu'r holl brofiadau a gawsant yn ystod y tymor. Diwrnod penigamp!

**Cyswllt ag Ysgol Dyffryn Ogwen**
Llawer o ddiolch i Mr Dylan Davies am drefnu'r digwyddiad cynradd / uwchradd diwethaf. Braint oedd croesawu Mrs Bethan Durrell yma, a Leo Simone, ein cyn-ddisgybl, i drafod sut fydd pethau yn Ysgol Dyffryn Ogwen ym mis Medi. Bore llwyddiannus.

**Diolch am y Llyfrau**
Llawer o ddiolch i Mrs Paula Owen am roi basged o lyfrau yn rhodd i'r ysgol.

**Camau Cerdd**
Diolch i gwmni William Mathias am y sesiynau Camau Cerdd ar gyfer y plant bach sydd yn y dosbarth Meithrin (Mrs Lois Nottingham) a'r dosbarth Derbyn (Mrs Bethan Jones). Sesiynau hwyliog dros ben!

**Sŵ Bae Colwyn**
Cafodd dosbarth Mrs Bethan Jones ddiwrnod bendigedig yn y Sŵ i gloi gweithgareddau'r tymor.




**Pencampwyr** Llongyfarchiadau i'r tîm genethod Bl 5 a 6 ar ddod i'r brig yn Nhwrnament Rygbi Tag yr Urdd yng Nghaernarfon. Gwych iawn! Ymlaen â chi i Aberystwyth!




**Athletau** Llongyfarcharchiadau i dîm athletau'r ysgol ar eu llwyddiant yng nghystadleuaeth Sportshall Ysgolion Gwynedd.

# Iaith Pesda

gan Mary Jones

## Traed

Mae yna nifer o ddywediadau sy'n ymwneud â'n traed. '**Rhoi troed yn'i'** ydy siomi neu bechu rhywun drwy ddweud neu wneud rhywbeth na ddyliech chi ddim. Ystyr tebyg sydd i '**sathru cyrn**'. Byddwn yn '**sathru cyrn'** os byddwn yn dweud neu wneud rhywbeth i ddigio rhywun arall. Pan fydd rhywun '**wrth ben ei draed**' mae o neu hi yn sefyll. Hefyd '**ar ei draed**' – "Mi gafodd o ergyd o dan ei ên ond roedd o'n dal ar ei draed." Pan fydd dyn ifanc yn derbyn croeso gan rieni ei gariad, bydd wedi cael **ei draed dan bwrdd**.

**'Ar eich traed/Ar eich traed nos'** ydy eich bod heb fynd i'r gwely – "Arhoson nhw ar eu traed nos i weld y bocsio ar y teledu." "Roedd y plant dal ar eu traed er ei bod hi'n hwyr iawn." Pan fyddwch chi wedi tynnu'r sgidiau, byddwch '**yn eich traed sana**', ac os tynnwch chi'ch sanau byddwch '**yn droed-noeth**'. Rhedeg i ffwrdd i osgoi rhywun neu rywbeth ydy '**ei gwadnu ni**', ac mae '**rhoi traed iddi'** yn golygu'r un peth. Ystyr '**bod ar flaen eich traed'** ydy bod yn barod rhag i rywbeth ddigwydd. Bod '**ar eich sodla'** ydy cael eich taro nes bod eich corff yn symud am yn ôl a'ch pwysau are eich sodlau – "Mi gafodd o ergyd nes o'dd o ar ei sodla."

Rhywun segur, heb ddim byd i'w wneud, sy'n '**cicio'i sodlau**' – "Mae o wedi colli'i waith ac mae o'n cicio'i sodla hyd lle 'ma." Hefyd rhywun yn gorfod aros yn hir yn disgwyl am rywun neu rywbeth – "Roedd y bŷs yn hwyr, a fan'no buon ni'n cicio sodlau am hir." Rhan isaf y gwely ydy '**troed y gwely'**. Bod '**â'ch traed yn rhydd**' ydy peidio bod yn gaeth mewn unrhyw ffordd – "Mae hi wedi ymddeol ac mae'i thraed hi'n rhydd rŵan i wneud fel fynno hi."

Pan fydd rhywun wedi bod yn lwcus mi ddwedwn ni ei fod '**wedi landio ar ei draed**.' Ysgrifen flêr ydy '**sgwennu traed brain'**. Pethau'n mynd yn llanast ydy '**traed moch'**. Bydd rhywun '**dan draed'** os bydd yn rhwystr i rywun arall – "Mae'n dda gen i i fod y gŵr wedi cael rhywbeth i neud, lle bod o dan draed yn tŷ 'ma." Pan fyddwn yn methu dod o hyd i rywbeth, mi ddwedwn ni ei fod '**wedi magu traed**'. Bydd rhywun yn '**llusgo'i draed**' pan fydd ar ei hôl hi yn gwneud rhywbeth. A dyma ichi un ymadrodd arall, sef '**hel traed**', sy'n tynnu sylw at fynd allan o'r tŷ yn aml, a hynny ran amlaf i hamddena – "Mae hi'n hel ei thraed eto heddiw."

## Ambell Air ac Ymadrodd

**Y cwrt bach.** Dyma fyddai pobol yr ardal yn ei ddweud am lys ynadon – "Mi fydd o'n y cwrt bach ym Mangor ymhen mis."
**Hancaits.** Mi ddwedwn ni 'hancaits bocad' a 'hancas bocad' hefyd. Enwau eraill ydy 'cadach poced' a 'ffunen boced'.
**Trên bach yn y bol.** Sŵn yn y stumog pan fydd camdreuliad. Byddai'r dywediad yn cael ei ddefnyddio efo plant – "Dw i'n clywed sŵn trên bach yn dy fol di."
**Co.** Ystyr hwn ydy 'dyn'. Daw o'r Saesneg 'cove', hen air a oedd yn golygu '*fellow*'. Mae o'n dal i gael ei ddefnyddio yng Nghaernarfon, a 'cofis' ydy mwy nag un. Roedd o'n arfer cael ei ddefnyddio yn Nyffryn Ogwen. 'Co' oedd gŵr – "Mi fydd co yn dŵad adra o'r chwarel gyda hyn ac isio bwyd yn arw." 'Hen go' oedd tad – "Mae'r hen go am ddŵad efo fi i weld y gêm yfory."
**Gwisgo.** Ar wahân i olygu gwisgo dillad, mae'n golygu treulio – "Mae'r teiar 'ma wedi gwisgo. Mae'n beryg iti cael dirwy." a "Mae gwadan yr esgid 'ma wedi gwisgo." Hefyd, mae o'n medru golygu colli effaith – "Ges i dynnu'r daint, ac o'n i'n meddwl na fysa'r anasthetig ddim wedi gwisgo erbyn imi ddŵad adra, ond ches i ddim poen o gwbwl."
**Powld.** Daw daw yn wreiddiol o'r Saesneg 'bold', yn yr ystyr o fod yn fentrus yn hytrach na bod yn ddewr. I ni, mae o'n golygu bod yn ddigywilydd o fentrus – "Roeddat ti'n bowld yn gofyn faint oedd ei hoed hi."
**Hydoedd.** Amser hir ydy hwn – "Mi fuon ni'n aros am hydoedd cyn gweld y doctor."
**Agos i'w le** (neu **lle.**) Cyfeirir at berson sy'n 'agos i'w le' fel un sydd yn ymddwyn yn onest ac yn deg yn ei ymddygiad.
**Penboeth.** Rhywun sy'n gwylltio yn hawdd neu yn daer dros rhyw achos neu'i gilydd. "Roedd o'n gefnogwr penboeth o'r streic"
**Hen goes**. Term digon hoffus am gyfaill neu gydnabod " Wel sut wyt ti r hen goes?"
**Canu am dy brês.** Mae'n arferiad, fel y cyfeiriwyd o'r blaen yn y golofn, dweud " Dos i ganu!" ond daeth 'canu am dy brês' i'm sylw. Cofiaf pan yn blentyn i rai bobl ddod o amgylch y pentref ac aros o flaen rhes o dai a dechrau canu. Yna byddai rhai pobl yn mynd allan a rhoi rhyw geiniog neu ddimai iddyn nhw. Tybed felly bod rhywun yn gofyn i rywun arall am fenthyg ychydig o arian ac yn cael yr ateb "Dos i ganu am dy brês!" a hwnnw wedi newid gydag amser i fod yn "Dos i ganu!"

Diolch unwaith eto i Sandra Howell am rai o'r uchod. Hoffwn hefyd ddymuno penblwydd hapus arbennig i Sandra gan obeithio ei bod wedi cael amser da yn dathlu.

Cofiwch gysyllt Mary Jones, 42 Erw Las, Bethesda LL57 3NN, 07443047642, maryeds@hotmail.co.uk

## Cyngor Cymuned Bethesda

Ddiwedd mis Mawrth daeth cyfnod Bethan fel clerc ein Cyngor Cymuned i ben. Derbyniodd Bethan swydd newydd gyda Senedd Cymru, ac felly bydd yn gadael ei swydd gyda Phartneriaeth Ogwen. Dymunwn yn dda i ti yn dy swydd newydd Bethan a diolch am dy wasanaeth gyda ni, a hynny bob amser gyda gwên.

Yn sgîl hyn wrth gwrs rydym yn ffodus iawn yn gallu croesawu Hannah Mefin i'w swydd newydd. Mae hi eisoes wedi bod gyda ni ers ddechrau Ebrill ac wedi ymgymeryd â'r gwaith clercio, ac rydym yn edrych ymlaen yn arw at gydweithio gyda hi. Croeso mawr Hannah!

**Cyfarfod y Cyngor nos Iau, Ebrill 24ain**
**Maes Parcio Gerlan**
Braf iawn yw nodi bod yr ochr gyfreithiol yn symud ymlaen yn dda ac rydym yn gweithio'n agos gyda'n twrnai ynglŷn â'r gwerthiant. Yn dilyn pryniant y tir, mae'r cyngor yn gobeithio gwireddu'r prosiect hwn cyn gynted ag sy'n bosib.

**Zip World**
Cefnogwyd ymgyrch sy'n cael ei harwain gan y Cyng. Beca Roberts. Mae Zip W orld yn gofyn £6.2 miliwngan Fwrdd Uchelgais Cymru. Prif ffocws yr ymgyrch yw'r gred ei bod yn deg iddynt ymrwymo cyfran fach o'u helw -1%o drosiant y safle neu 5% o'u helw gweithredol yn ardaloedd Llechwedd a Phenrhyn – i gronfa waddol gymunedol. Gallai hyn godi £50,000 y flwyddyn ar gyfer prosiectau lleol gan wneud gwahaniaeth gwirioneddol.






***Pob deunydd i law erbyn dydd Sadwrn, Mai 31 os gwelwch yn dda.***

# YSGOL DYFFRYN OGWEN

**Eisteddfod yr Urdd**

Llongyfarchiadau enfawr i Gwenno Beech ar ei llwyddiant yn Eisteddfod yr Urdd! Mewn cystadleuaeth cerdd dant ac unawd blwyddyn 10-19oed, cafodd Gwenno y wobr 1af ac 2ail yn y drefn honno, mewn cystadlaethau o safon uchel iawn. Mae hyn yn ychwanegu at ei champ o ennill yng nghystadleuaeth cân o sioe gerdd a chael 2ail yn y monolog! Rydym yn hynod falch o'r llwyddiannau hyn, ac rydym yn edrych ymlaen i'w gweld yn cystadlu yn y genedlaethol diwedd fis Mai.



Roedd yn fraint ei chlywed yn ymarfer yn yr ysgol. Llongyfarchiadau Gwenno!



**Twrnament Pêl-rwyd**

Llongyfarchiadau i dîm genethod blwyddyn 7 am ddod yn fuddugol yn nhwrnament pêl-rwyd i ysgolion Arfon. Gemau cystadleuol gyda'r genod yn dangos sgiliau cydweithio gwych i ennill pob gêm. Daliwch ati i ymarfer a datblygu.

## Gwobrwyo

Llongyfarchiadau i'r holl ddisgyblion gafodd eu gwobrwyo yng ngwasanaeth blwyddyn 7 ac 8 cyn gwyliau'r Pasg. Cydnabod ymdrech, cynnydd, ymddygiad a phresenoldeb da. Da iawn chi, daliwch ati.






**DAFYDD CADWALADR**
CYNHYRCHION COEDLANNOL
Coed Tân - Llwythi bach a mawr
Ysglodion pren i'r ardd
Ffensio a thorri coed Asiant system gwresogi trwy losgi coed
01248 605207

**Londis**
BETHESDA
01248 605566
Archfarchnad hwylus a Swyddfa Bost Gwasanaeth personol gyda'r pwyslais ar y cwsmer
Tocynnau Loteri, cardiau a biliau trydan a nwy Ar agor 7.00 y bore tan 10.00 yr hwyr 7 diwrnod yr wythnos

**J. TEMPLE MORRIS A'I FAB**
Pob Math o Waliau Cerrig, Ffensio, Tarmacio a Thirlunio.
Gwaith gyda peiriant tyrchu bach.
07770 900531 | 01248 600282
jtemplemorris@btinternet.com

**CHRIS GRIFFITHS CYF**
Trwsio ffenestri upvc, drysau, cloeau, bachau, twll llythyrau ac unedau gwydr wedi chwythu
18 Carreg Felin
Llandegfan
Ynys Môn
LL59 5YB
☎ 01248 713 369
neu 07813 455653

**Mark Davies**
07447804110
Peiriannydd Carafan Teithiol
MD Caravans
Gwasanaethu
Prawf Nwy
Prawf Trydanol
Prawf Tamprwydd
Atgyweirio
Siasis a Brecs
mark@mdcaravans.cymru
MCEA

**Gareth Williams**
TREFNYDD ANGLADDAU
Crud yr Awel
1 Ffordd Garneddwen
Bethesda
600763 neu 07708 008051
GWASANAETH DYDD A NOS

## Rhiwlas

**Annes Glynn,** Bwthyn Cefn Braich,
Rhiwlas LL57 4HB
annes.glynn@gmail.com
(01248) 351015

### Capel Shiloh Newydd, Rhiwlas

**Gwasanaethau'r Sul**

Dyma fanylion y gwasanaethau sydd i'w cynnal yn y Neuadd am 10 o'r gloch ar y Suliau canlynol:
Mehefin 8 : Parch Hugh Pritchard
Mehefin 15: Parch Cledwyn Williams
Mehefin 22: Parch Aled Davies

Croeso cynnes i bawb.

**Llongyfarchiadau a chofion**

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Dylan Jones, mab Tony a Glenys, Bron y Waun, ar ei benodiad yn Bennaeth Ysgol Brynrefail yn ddiweddar. Ar hyn o bryd mae Dylan yn Bennaeth Ysgol Syr Thomas Jones, Amlwch a chyn hynny bu'n ddirprwy bennaeth yn Ysgol Dyffryn Ogwen ac yn bennaeth cynorthwyol yn Ysgol Glan Clwyd. Er iddo ymgartrefu ym Môn efo'i wraig Bethan a'u merched ers rhai blynyddoedd bellach mae'n braf meddwl ei fod yn raddol ddod yn nes at ei filltir sgwâr gwreiddiol o ran ei yrfa!

Mae'r newydd yma'n sicr o fod yn hwb i'r galon i'w dad, Tony, sydd ar hyn o bryd yn teithio'n ôl ac ymlaen yn rheolaidd i Ysbyty Aintree, Lerpwl i dderbyn triniaeth. Anfonwn ein cofion cynhesaf atat, Tony. Rydym yn meddwl amdanat ti a'r teulu i gyd yn ystod y cyfnod yma ac yn dymuno gwellhad buan iti.

**Ymddeoliad hapus**

Anfonwn ein dymuniadau gorau am ymddeoliad hapus a hir i Mrs Einir Williams, Cefn Coch, neu 'Anti Einir' fel y mae cenedlaethau o blant wedi ei hadnabod, ar ôl iddi roi'r gorau i'w swydd yn yr ysgol gynradd yn ddiweddar ar ôl cyfnod o dros 30 mlynedd. Mwynhewch bob eiliad o'ch hamdden, Einir. Rydych chi'n ei haeddu!

**Coffi a chacen**

Bydd y 'te bach' poblogaidd nesaf yn cael ei gynnal brynhawn Sadwrn, Mehefin 7 rhwng 1 a 3 yn y Neuadd. Sharon Griffith a Gill Walker gyda chymorth aelodau eraill o'r Cyfeillion, sy'n trefnu. Gair i gall: peidiwch â'i gadael hi'n rhy hwyr i alw heibio – mae'r cacennau'n tueddu i ddiflannu'n sydyn iawn!

**Clwb Rhiwen**

Daethom ynghyd ar brynhawn Mercher, Ebrill 16 yn y neuadd bentref. Dechreuwyd y cyfarfod gyda theyrnged i'r ddiweddar Mrs Ann Williams fu'n un o hoelion wyth Clwb Rhiwen ar hyd y blynyddoedd. Cafwyd prynhawn diddorol iawn yn trafod hanes yr Ŵy Pasg dros y canrifoedd; yna cawsom glywed am draddodiadau Pasg rhai o'n haelodau. Dee ac Alison oedd yn cynorthwyo Gareth i baratoi'r banad.

Yn ein cyfarfod nesaf ar Fehefin 18 bydd Y Parchedig Sara Roberts yn trafod ei gwaith gyda'r Eglwys Wyllt. Mae'r Clwb yn cyfarfod ar y trydydd prynhawn Mercher o'r mis am 2 o'r gloch yn Neuadd Bentref Rhiwlas.

### Merched y Wawr

Ychydig ddyddiau cyn y Pasg, dan arweiniad un o'r aelodau Mari Williams, mwynhaodd yr aelodau greu ac addurno cywion bach o bob lliw a llun gan guddio wyau siocled yn eu boliau! Kate a Catherine oedd yn gyfrifol am y baned ac enillwyd y raffl gan Carol.







**Rhedeg ym Mharis!**

Llongyfarchiadau enfawr i Lynne Williams, Cefn y Braich, a gwblhaodd ei marathon cyntaf erioed ym Mharis ganol Ebrill a hynny er iddi ddioddef o asthma ers yn blentyn. Er mai nod personol oedd wrth wraidd ei phenderfyniad i fynd amdani yn wreiddiol meddai, aeth ati yn y pen draw i godi arian ar gyfer Prostate Cancer UK er cof am ei thad fu farw o'r afiechyd pan oedd Lynne yn 17 oed. Hyd yma mae wedi codi £440 ond mae modd cyfrannu hyd at Fehefin 30. Dyma'r ddolen – **marchthemonth.prostatecanceruk.org**
(Gw. y stori lawn ar y dudalen 21)

**Colli Gareth Roberts**

Sioc o'r mwyaf inni yn y pentref, fel i gynifer o drigolion eraill yr ardal ehangach, oedd clywed am farw sydyn, annisgwyl yr hanesydd lleol a'r dylunydd a'r ffotograffydd amryddawn Gareth Roberts, Deiniolen ar drothwy'r Pasg. Ychydig wythnosau ynghynt roedd yn ei elfen yn y Neuadd yn diddanu ac yn addysgu cynulleidfa niferus am nodweddion archeolegol yr ardal drwy gyfrwng ffilmiau a dynnwyd gan Martin Davies, 'Ardal' gyda drôn. Rydym yn cofio am frwdfrydedd heintus Gareth dros hanes lleol, ei waith gyda Menter Fachwen a'i natur hynaws. Anfonwn ein cydymdeimlad cywir i'w weddw, Melanie, a'i fab Gwyn.

**C.L. JONES**
Masnachwyr Coed a Nwyddau Adeiladu
Timber & Builders' Merchants
Bethesda - Caernarfon - Mynytho - Llanrwst - Llangefni - Caergybi - Bae Cinmel - Llandudno
C.L. Jones yw eich masnachwyr adeiladu annibynnol lleol gydag amrywiaeth eang o ddeunyddiau adeiladu o safon gan gynnwys cyflenwadau plymio, addurno a thirlunio. Rydym yn agored i fasnachau a'r cyhoedd, ac yn cynnig danfoniad am ddim. Mae gennym arddangosfeydd ceginau ac ystafelloedd ymolchi ar gael yn ein canghennau Llangefni a Llanrwst.




Bethesda 01248 600 045
bethesda@cljonesltd.co.uk

# Talybont

**Neville Hughes**, 14 Pant, Bethesda (600853)
**Barbara Jones**, 1 Dôl Helyg, Talybont (353500)

**Ysbyty**
Wrth i'r Llais fynd i'r wasg, daeth y newyddion fod un o hoelion wyth y papur, Neville Hughes, Ffordd Pant, wedi'i daro'n wael a'i gymryd i'r ysbyty. Fel panel, a chymuned, dymunwn adferiad llwyr a buan iddo.

**Cartref newydd**
Estynnwn groeso cynnes i Mark, Thomas ac Elliott o Wythenshawe, Manceinion, i Dŷ Fferm Pentrefelin. Mae'n braf gweld yr hen enw ar lechan ar wal y tŷ. Maent yn gweithio ar eu cartref newydd ers ychydig o fisoedd, ac er bod llawer i'w wneud eto, maent wedi gallu symud i mewn o'r diwedd.

Mae Mark yn awyddus iawn i ddod yn rhan o'r pentref, ac i Elliott ddysgu Cymraeg yn Ysgol Dyffryn Ogwen. Dymunwn bob llwyddiant a dedwyddwch iddynt.

**Diolch o galon!**
Mae trigolion Talybont yn hynod ddiolchgar i'r Cynghorydd Bro, Rhydian, a'i sgwad o wirfoddolwyr, sy'n rhoi o'u hamser prin i dorri'r gwair yn y ddau gae chwarae.

Mae pobl yn dod o bell ac agos i dreulio amser efo'u plant yng Nghae Talybont, ac maent i gyd yn sylwi ar ei gyflwr da.

Does dim dwywaith amdani fod llawer iawn llai o sbwriel yn cael ei adael yno ers i'r gwair gael ei dorri'n rheolaidd. Diolch yn fawr iawn ichi, hogia'!

**Brysiwch wella**
Mae Mrs Thelma Jones, 68, Bro Emrys, wedi treulio cyfnod byr yn yr ysbyty. Mae hi gartref erbyn hyn ac yn derbyn gofal ardderchog gan ei gŵr, Ron, a'u hwyres Lorna sy'n byw yn eu hymyl. Brysia wella, Thelma; mae dy ffrindiau i gyd yn cofio atat.

## Capel Bethlehem

*Oedfaon (am 2 o'r gloch)*
Mai 18: Parchg. Megan Williams.
Mai 25: Oedfa i'w threfnu.
Mehefin 1: Parchg. Casi Jones. (Cymun)
Mehefin 8: Parchg. Eric Jones.
Mehefin 15: Oedfa i'w threfnu.
Mehefin 22: Parchg. Gwenda Richards.
Mehefin 29: Parchg. Cledwyn Williams.

*Croeso cynnes i bawb.*

# Partneriaeth Ogwen

**Cartref Newydd Hwb Ogwen**
Mae Hwb Ogwen bellach wedi symud at swyddfa Dyffryn Caredig yn rhif 27 Stryd Fawr, Bethesda. Hefyd, mae eu horiau agor wedi newid, ac maent nawr ar agor 5 niwrnod yr wythnos - o Ddydd Llun i Ddydd Gwener. Ond, yn anffodus, oherwydd diffyg cyllid, mae'r Clwb Bwyd a fu'n digwydd bob nos Wener wedi dod i ben.

Am fwy o wybodaeth ar sut gall Hwb Ogwen eich helpu chi gyda bagiau bwyd argyfwng neu awgrymiadau ar sut i leihau biliau dŵr, ffôn a thrydan, cysylltwch gyda hwb@ogwen.org neu 01248 602 131.

**Gŵyl Gwenllian 2025**
Mae Partneriaeth Ogwen yn falch o gyhoeddi byddant yn cyd-weithio gyda grŵp ysgrifennu creadigol Llên mewn Lle i gynnal Gŵyl Gwenllïan unwaith eto eleni. Bydd yr ŵyl yn digwydd dros benwythnos y chweched i'r wythfed o Fehefin. Cadwch lygaid ar gyfryngau cymdeithasol Partneriaeth Ogwen i ddysgu mwy am yr ŵyl!

## Eglwys St Cross

**Muriel @ 90!**
Llongyfarchiadau Muriel! Rydym i gyd yn ddymuno'n dda i Mrs Muriel Owen, Pentre Llandegai, a ddathlodd ei phen-blwydd yn 90 oed ym mis Ebrill, ychydig ddyddiau cyn y Pasg – galwodd ymwelwyr o bob man i'w gweld hi ar ei diwrnod arbennig, ac 'roedd y tŷ yn llawn blodau, ac 'rwy'n deall ei bod hi wedi mwynhau pryd o fwyd gyda'i theulu gyda'r nos yn y bwyty Tsieineaidd ym Mhorthaethwy.



**Gwasanaethau'r Sul mis Mai a mis Mehefin**
Ym mis Mai a mis Mehefin, mae yna un neu ddau o newidiadau i'r rota gwasanaethau arferol (bob yn ail Sul efo St Tegai):

Mai 4ydd: 11 a.m. St Cross, Cymun Bendigaid
Mai 11eg: 10 a.m. Eglwys Crist, Glanogwen, Cymun Bendigaid
Mai 18eg: 11 a.m. St Tegai, Cymun Bendigaid
Mai 25ain: 11 a.m. St Cross, Cymun Bendigaid
Mehefin 1af: 11 a.m. St Tegai
Mehefin 8fed: 11 a.m. St Tegai
Mehefin 15fed: 11 a.m. St Cross
Mehefin 22ain: 11 a.m. St Tegai
Mehefin 29ain: 10 a.m. St Cross

**Bore Coffi**: Mehefin 3ydd a Gorffennaf 1af am 10.30 a.m. yn Ysgoldy.

Am fanylion pellach neu i holi am ymweliadau bugeiliol, cymun cartref, bedydd, priodasau, angladdau neu gladdu ym mynwent yr eglwys, cysylltwch â'r Ficer, y Parchedig Ddr Gareth Lloyd: GarethLloyd@cinw.org.uk 01248 361521; neu'r Barchedig Sara Robrets, Caplan Bro: SaraRoberts@churchinwales.org 07967652981; neu Warden Eglwys St Cross, Catrin Hobson – 07881 802882


SGAFFALDIAU Cyf. SCAFFOLDING Ltd.
YR IARD, FFORDD STESION, BETHESDA, GWYNEDD LL57 3NE
**ebost:** sales@jrscaffolding.co.uk
**Ffôn/Ffacs:** 01248 601754
07770 568743 (symudol)

MODURON PANDY Cyf.
UNIPART CAR CARE CENTRE
MOT Diesel a Chatalydd
Atgyweirio MOT
Gwasanaethu Cerbydau
Cydbwyso Teiars
Batris
Tracio
01248 600619
moduronpandy@yahoo.com
www.moduronpandymotors.co.uk
Tregarth, Bangor, Gwynedd LL57 4AY



# Cyrraedd y nod ym Mharis

A hithau wedi dioddef efo asthma ers yn blentyn mae camp Lynne Williams o Rhiwlas yn cwblhau ei marathon cyntaf erioed ym Mharis ganol Ebrill yn un i ryfeddu ato. "Mae'n rhywbeth yr ydw i wedi bod eisiau ei wneud erioed o edrych yn ôl," meddai, " ond wnes i ddim meddwl y baswn i'n llwyddo gan fod pobol yn ystod y 70au yn eich annog i beidio â rhedeg rhag i hynny wneud y cyflwr yn waeth."

Daeth tro ar fyd ddiwedd Ionawr 2024 pan ymddangosodd hysbyseb ar ei chyfryngau cymdeithasol am *March the Month*. Digwyddiad blynyddol ydi hwn wedi ei drefnu gan Prostate Cancer UK ac oherwydd bod yr hysbyseb wedi ymddangos ar y dyddiad y bu farw ei thad o'r afiechyd hwnnw flynyddoedd cyn hynny, ar Ionawr 27, penderfynodd Lynne fynd amdani.

Aeth ati i gofrestru gan gerdded 11,000 cam y diwrnod gydol mis Mawrth y flwyddyn honno. "Mi wnes i ei fwynhau yn arw," meddai. "Dyma'r union beth yr oeddwn i ei angen o ran dechrau ymarfer yn rheolaidd a mynd allan i'r awyr iach ac ar adegau mi wnes i gerdded gyda ffrindiau a theulu." Llwyddodd i godi £345.

Ond doedd Lynne, sy'n hanu'n wreiddiol o Fae Colwyn, ddim eisiau rhoi'r gorau iddi wedyn. "Mi wnes i benderfynu cerdded marathon, rhwng Rhyl a Bae Colwyn, cyn fy mhen-blwydd yn 55 oed. Mi wnes i ddweud wrth bobol fy mod i am ei wneud o a doedd dim troi'n ôl wedyn."

Ar ei phen-blwydd priodas ar Ebrill 10 yr un flwyddyn dechreuodd ar y cynllun *Couch to 5k*. Cyrhaeddodd y nod ddechrau Mehefin drwy redeg am 30 munud yn ddi-dor. Ymlaen wedyn i gymryd rhan yn ei *Park Run* cyntaf ar Fehefin 6 yn Northwich lle roedd Lynne a'i gŵr ar eu gwyliau ar y pryd.

"Ond roeddwn i angen her arall i 'nghadw i fynd," meddai. Y canlyniad oedd iddi gofrestru am farathon Paris, fel y digwyddiad rhyngwladol agosaf ar Ebrill 13. (Cymerodd bron i 57,000 ran ynddi ac roedd 33 y cant ohonyn nhw yn rhedwyr rhyngwladol). Ei nod oedd ei gwblhau drwy redeg a cherdded.

" Roedd y tywydd yn berffaith ar ddiwrnod y marathon, tua 18 gradd a'r awel yn ysgafn. Roeddwn i'n ei theimlo hi'n gymaint o fraint i gael rhedeg o gwmpas dinas mor hardd gan gynnwys rhedeg ar hyd y Champs Elysees ar y dechrau, pasio'r Tŵr Eiffel a chynifer o fannau eraill eiconig. Roedd y gefnogaeth a'r awyrgylch yn anhygoel a chyrraedd y llinell derfyn yn rhywbeth na wna i byth ei anghofio!" meddai.

"Mi welais i fy ngŵr bedair gwaith ar hyd y daith a'r tro olaf ar y pwynt 39k oedd yn un allweddol gan fy mod i wir angen anogaeth erbyn hynny."

Gobaith Lynne yn awr yw cyflymu ei rhedeg dros bellteroedd byrrach o 5k a 10k ac mae hi eisoes wedi cofrestru i gymryd rhan mewn hanner marathon fis Chwefror nesaf mewn hinsawdd gynhesach fel symbyliad i ddal ati efo'r hyfforddi drwy'r gaeaf unwaith eto.

**AG**

# Nyth y Gân

## Y Delyn Deires

*Mae i'n hynod mewn hanes; hi ddenodd*
*Y ddawn gyda'r deires;*
*Tyner oedd y tannau'n rhes,*
*Yn aur gan delynores.*



*Nansi Richards*

## Y Peillwyr

*Drwy'r dyddiau hir, cynnes*
*Y clywsom y rhain*
*Yn gwau drwy ei gilydd*
*Rhwng blodau y drain.*
*A theimlo fel pryfyn*
*Yn wir oeddem ni*
*O weld yr olygfa*
*Mor hapus a ffri.*

*Doedd neb yno'n poeni,*
*A braf oeddynt hwy*
*Yn peillio mor bwyllog*
*Y blodau drwy'r plwy'.*
*Ond darlun am gyfnod*
*A gawn o'r rhai hyn;*
*Daw rhew toc ac eira*
*Dros dirwedd y bryn.*

## Aelwyd Draddodiadol

*Ystafell fendigedig*
*Oedd yn eu cartref hwy,*
*Yn llawn o bethau gwerthfawr –*
*Yr hen gloc mawr, a mwy.*


*Yn dal eu llygaid oeddynt,*
*Pob un yn dwt a glân;*
*Wynebau'n edrych arnynt,*
*Rhai mawrion a rhai mân.*

*Am lawer o flynyddoedd*
*Bu'r cyfan fel y rhain*
*Yn cael eu parchu'n gyson*
*Fel cawsant gan sawl nain.*

*Gobeithio cânt eu cadw'n*
*Drysorau ddydd a ddaw;*
*Eu caru a'u hedmygu*
*Wrth fynd o law i law.*

**Dafydd Morris**

# CROESAIR



### AR DRAWS

1 Mae yn galed i olrhain sgwrs y ddau yn y ddrama (7)
5 Dyn 'gas' o dre'r cofi mewn sir arall (5)
8 Ffrwythau mân ger ceg yr afon ym Mae Ceredigion (5)
9 Disgwyliadau cwestiynau (7)
10 Bod yn ffrind (9)
12 Corfforaeth radio a theledu Iwerddon (3)
13 Rhythu a gallu dy weld yn glir (6)
14 Nofel a drama deledu am rygbi merched yn Nyffryn Ogwen (6)
17 Beth allai ei ffrindiau alw Mr. Trump ! (3)
18 Y drws heb fod led y pen nac ar gau yn gyfangwbl (9)
20 Mi wna i gymryd fy ngwynt yn fwy cryno (7)
21 'Byddigions' meddai'r werin (5)
23 Harri 7 ac 8 (5)
24 Gwneud patrwm a chynllun (7)

### I LAWR

1 Ffoi i guddio rhag cael ei ddal (5)
2 Os am ŵy i rai chwithig (3)
3 Tynnu sylw at lyfr newydd, ond nid ei anfon i'r gofod chwaith (7)
4 Rhoi cychwyn arni trwy wneud hyn i'r botwm (6)
5 Cewri dryslyd yn rhoi crasfa (5)
6 Un o ymlusgiaid diwenwyn ein cefn gwlad (5,4)
7 Diosg pob cerpyn oddi amdanoch (7)
11 Y rhai sy'n ymwrthod â bwyta cynnyrch o anifeiliaid (9)
13 Yn yr adwy i'r pum cant sydd ynghanol y lli a'r trai wedi troi (7)
15 Twchu a rhoi pwysau o gwmpas fy nghanol (4,3)
16 Clwy neu gyflwr o afiechyd, er bod un yn swnio'n felys (6)
18 I bincio a harddu'r wyneb (5)
19 Gwawrio, sydd byth yn mynd allan o ffasiwn (5)
22 "Nwy yn y - - - " Cân i Gymru 1971 (3)

Atebion erbyn 6ed Mehefin 2025 fan bellaf (ni ellir ystyried y rhai sy'n cyrraedd yn hwyrach) i 'Croesair Mai', Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda, Gwynedd LL57 3PD

### ATEBION CROESAIR EBRILL 2025

AR DRAWS 2 Bwyd Llwy, 7 Llety, 8 Sawr, 9 Smala, 10 Weiren, 11 Garddio, 12 Sur, 14 Ynfyd, 16 Troad, 18 Dwy, 21 Siambr, 23 Byrraf, 24 Adref, 25 Fyny, 26 Aswy, 27 Disodli

I LAWR 1 Persain, 2 Bysedd, 3 Ymaros, 4 Llu Awyr, 5 Ysbiwyr, 6 Twnel, 13 Ulw, 15 Ymyrryd, 17 Arbrawf, 18 Dyfais, 19 Ysbryd, 20 Tyddyn, 22 Ar Fai

Dyma'r gwallau a gafwyd y tro yma : yn lle 'byrraf' (23 Ar Draws) cafwyd tri yn cynnig 'hydref' a dau arall 'cyfrif' ac un 'cydrif'. Hefyd cafwyd 'ysbilwr' (5 I Lawr) yn lle'r ateb cywir 'ysbiwyr'.

Ond mae'r canlynol yn derbyn canmoliaeth am anfon atebion hollol gywir: Jean Vaughan Jones, Dilys Parry, Rhiwlas; John Ffrancon Griffith, Abergele; Dulcie Roberts, Gareth Oliver, Tregarth; Judith Hughes, Llangoed; Iona Williams, Llanddulas; Doris Shaw, Ann Morris, Bethesda; Gwenda Davies, Llanfairpwll; Emrys Griffiths, Rhosgadfan; Gill King, Mynydd Llandygai; Barbara Jones, Talybont

Llongyfarchiadau calonnog i chi Dilys Parry, 1 Bryn Tirion, Rhiwlas, Bangor LL57 4HA am gipio'r wobr y mis yma.


MODURDY FFRYDLAS

Profion M.O.T.

PERCHNOGION
A.LL. ac R.W. WILLIAMS
**Stryd Fawr, Bethesda**
PROFION M.O.T.

GWASANAETH ATGYWEIRIO
TEIARS A BATRIS
GWASANAETH TORRI I LAWR
NEU DDAMWAIN

Ffôn: 600 723
E-bost: ffrydlas@btconnect.com


***Cysylltwch â Neville Hughes (Ffôn 600853) nev_hughes@btinternet.com***



# Chwedl a Choel yn Nyffryn Ogwen (3)

Gan **Howard Huws**

**Y Tylwyth Teg**

Yn ôl at yr ogofeydd. Y mis diwethaf, soniais am fugail yn canfod trysor mewn ogof orlawn yn y Benglog, Nant Ffrancon. Fersiwn arall o'r un chwedl yw bod gwas fferm wedi mynd i fyny i Lyn Ogwen, a chael yno ogof yn llawn llestri pres o bob math. Ceisiodd gymryd un, ond yr oedd yn rhy drwm i'w symud, felly gan fwriadu dychwelyd drannoeth efo cyfaill, caeodd yr ogof â thyweirch, ac aeth adref gan naddu ei ffon bren yn ysglodion, iddo gofio lle'r oedd y gelc, a dilyn y trywydd yn ôl yno. Y bore canlynol, dyma fo'n dychwelyd yno efo cyfaill... ond 'doedd yno'r un sglodyn i'w weld.

**Pam?** Am nad o oedd i gael y trysor. Y chwedl oedd mai eiddo Gwyddelod oedd y llestri, a dim ond Gwyddel felly sydd i'w cael nhw. Ryw ddydd, fe ddaw Gwyddel yn fugail i'r gymdogaeth, ac wrth iddo fugeilio bydd dafad, un ddu efo pen brith, yn rhedeg o'i flaen ac i mewn i ogof. Rhaid iddo yntau ei dilyn, ac o ddilyn, caiff hyd i'r trysorau. Felly'r aiff y llestri yn ôl i ddwylo Gwyddel, yn y pen draw.

**I ble'r aeth y sglodion pren?** Yr esboniad arferol yw bod y tylwyth teg wedi'u cipio nhw, ac y mae'r tylwyth yn aml yn gysylltiedig efo trysorau cudd, gan eu cuddio rhag pobl annheilwng, a'u dangos i'r teilwng. Pwy oeddent - neu ydynt? Ysbrydion y meirw, yn ôl un hen goel, neu ryw fath o fodau sy'n byw mewn byd arall am y pared â ni fel petai, ond yn medru mynd a dŵad i'n byd ni pan fo'r awydd yn cydio. "Dwi'm yn credu yn y tylwyth teg", meddai T.H. Parry-Williams gynt, "ond maen nhw'n bod."

Yr oeddent i'w gweld yn aml yma, yn enwedig yng nghyffiniau Llyn Cororion rhwng Tregarth a Llys-y-gwynt, neu "Lyn Clwrion", fel y'i gelwir. Credid bod y llyn yn ddiwaelod, a'u bod nhw i'w clywed yno. Clywid sŵn canu yno, synau gwaith cloddio o dan y ddaear, a sŵn plant yn wylo, hefyd. Gwelid y tylwyth teg yn y ddôl gerllaw ar foreau braf ym Mehefin, yn pladuro ac yn bugeilio'u gwartheg: ond o geisio mynd atynt, byddent yn diflannu.

O ddangos parch iddynt, a'u helpu, byddent yn talu'r pwyth yn ôl. Gadawai wraig Tyddyn y Famaeth, Llanllechid, ddŵr cynnes yn y tŷ ar eu cyfer gyda'r hwyr, iddynt gael golchi eu plant. Câi bobl arian yn dâl ganddynt am gymwynas. Cafodd gŵr Cororion ddysgl fawr o fara a chwrw am drwsio aradr y tylwyth, a'u cymorth nhw i bladuro pan nad oedd ganddo ddigon o weision i gynaeafu. Ond o ymddwyn yn amharchus atynt, neu at bobl eraill, byddai'r tylwyth yn dial, fel ar y dyn creulon hwnnw a daflwyd i'r awyr ganddynt am iddo fod yn frwnt wrth ei wraig.

Arferent ganu a dawnsio gyda'r hwyr, a deuai pobl i wrando arnynt, gan ymuno yn y ddawns. Un tro, dyma fab ac etifedd Cororion yn syrthio mewn cariad â thylwythen deg a welodd yn dawnsio yn y cylch. Cytunodd hithau i'w briodi, ar yr amod nad oedd o i wybod ei henw hi, na'i chyffwrdd â haearn. Bu i'r ddau gyd-fyw'n ddedwydd iawn, hyd nes iddynt fynd, un diwrnod, i gaeau Bryn Twrw, yng nghyfeiriad Penardd Gron, i nôl ebol. Roedd yr ebol yn anystywallt, a chawsant drafferth ei ddal, ond o'r diwedd llwyddodd hithau i afael ynddo. Taflodd y gŵr ffrwyn ati, iddi ei roi am ben yr ebol: ond roedd yn ffrwyn gyda genfa haearn arni, a dyma honno'n taro'r wraig.

Beth ddigwyddodd wedyn? Cewch wybod y tro nesaf!







## Calendr Llais Ogwan 2026

Lluniau ar gyfer Calendr 2026 i mewn cyn **31 Mai 2025**, os gwelwch yn dda, er mwyn rhoi digon o amser i gynhyrchu'r calendr. Bydd unrhyw lun o ardal Dyffryn Ogwen (gan gynnwys y Carneddau a'r Glyderau) yn cael ei ystyried.



**Lluniau fformat tirlun, os gwelwch yn dda**

*Cofiwch :*

- ***nodi lle y cymerwyd y llun, rhoi teitl i'r llun, a cynnwys eich cyferiad a'ch enw***

Anfonwch eich llun(iau) trwy ebost at: calendr2026@outlook.com

**Bydd y calendr ar werth ym mis Hydref – tybed fydd eich llun chi ynddo fo?**

***I hysbysebu yn Llais Ogwan***

Cysylltwch â ni

**golygydd@llaisogwan.com**

Cegin Karen


**Cacennau, Peis a Sawrus**
**Te Prynhawn a Bwffe ar gael**

@CeginKaren Tel: 07886 560781
Ebost / Email: ceginkaren@btinternet.com

# Chwaraeon

## Teigrod Ogwen

**Ogwen Tigers yn chwilio am hyfforddwyr i dîmau ieuenctid merched – Ogwen360. Gyda diolch i Ogwen360**




## Griff yn Gwneud ei Farc

Llongyfarchiadau gwresog i Griff Roberts o Lasinfryn ar gipio'r tlws yng Ngystadlaeuaeth Cic-focsio Agored Y Gogledd Orllewin. Mae Griff yn prysur gwneud ei farc ar y llwyfan mawr, ac eisoes wedi wynebu – a churo rhai o gystadleuwyr mwyaf profiadol ei grŵp oedran a phwysau. Disgybl ym mlwyddyn 7 yn Ysgol Dyffryn Ogwen yw Griff, ac mae o'n ymarfer yn gyson dan arweiniad ei hyfforddwr Darryl Gallagher yng nghampfa'r Dog House. Byddwn yn cadw llygad ar dy ornestau nesaf – pob lwc Griff!




L. STURRS
A'I FEIBION
SEFYDLWYD YN 1965
ADEILADWYR
HEN IARD STESION,
FFORDD Y STESION, BETHESDA
FFÔN: 600953
isturrs@googlemail.com

***Newyddion Mehefin i'w dderbyn erbyn 31 Mai. Dyddiad cyhoeddi 19 Mehefin.***

## Tîm Pêl-droed Bethesda Athletic

Llwyddiant oedd hanes tîm y bechgyn yn erbyn Celtiaid Talysarn yn ddiweddar, a hynny er gwaetha'r ffaith fod 3 blaenwr allan oherwydd anafiadau. Roedd gôl Osian Pugh yn ddigon i gipio'r pwyntiau ar gae Parc Meurig. Enillydd gwobr Gŵr y gêm oedd Joe Todd. A hithau bron yn ddiwedd y tymor, mae'r bechgyn yn chwarae eu gêm gartref olaf ar Fai 14eg, ac yna i ffwrdd i gloi'r cyfan ym Modedern ar Fai 22ain.

